



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ministry
of Justice

Dileu ffioedd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd

Ebrill 2013

Papur Ymgynghori PY15/2013

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 18/04/2013

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 16/05/2013



Dileu ffioedd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ebrill 2013

© Hawlfraint y Goron 2013

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101860826

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf
ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 2553895 04/13

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd ffibr wedi'i ailgylchu.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- At:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, y Panel Cydnabod Rhyw, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cyngor a phawb sydd â diddordeb yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
- Hyd:** O 18/04/2013 tan 16/05/2013
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) at:** Rachel Vickerstaff
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 5389
E-bost: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 16/05/2013.
Ymatebion ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk/>
Ymatebion e-bost i: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk
Ymatebion drwy'r post i: Rachel Vickerstaff, Ministry of Justice, Post point 4.38, 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ
- Y papur ymateb:** Cyhoeddir papur yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn ystod haf 2013.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
Cyflwyniad	4
Cefndir a Strategaeth	5
1. Un system dileu ffioedd	9
2. Cymhwyster ariannol ar gyfer dileu ffi	11
3. Cwmpas y system dileu ffioedd	21
4. Asesiad Effaith	24
5. Dadansoddiad Cydraddoldeb	25
Atodiad A: Y system dileu ffioedd bresennol yn y llysoedd sifil	27
Atodiad B: Cymharu darpariaethau dileu ffioedd yn ôl maes busnes	31
Atodiad C: Ystadegau cryno – dileu ffioedd yn ôl maes busnes, 2011/12	34
Atodiad D: Y meini prawf cymhwyster ariannol arfaethedig	35
Atodiad E: Trin incwm a chyfalaf	38
Atodiad F: Tystiolaeth sy'n ofynnol	42
Atodiad G: Ffioedd penodedig o 800 o bunnoedd neu fwy sy'n daladwy gan unigolion	44
Atodiad H: Ffioedd penodedig ar gyfer ceisiadau am gopiâu a chwiliadau	46
Atodiad I: Ffioedd Tribiwnlys Cyflogaeth	48
Atodiad J: Rhanddeiliaid yr anfonwyd y papur ymgynghori hwn atynt	49
Holiadur	56
Amdanoch chi	58
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	59
Manylion cyswllt Cydgysylltydd yr ymgynghoriad	61

Crynodeb gweithredol

Yn 2011/12 roedd cost rhedeg y materion annhroseddol sy'n cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) o gwmpas £713m. O'r swm hwn roedd 67% yn cael ei ariannu drwy ffioedd (£480m) a'r 33% arall yn cael ei ariannu gan y trethdalwr (£233m) fel rhan o setliad gwariant y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae cymhorthdal y trethdalwr yn cynnwys dwy elfen:

- Ffioedd sy'n llai na'r gost lawn, h.y. nid yw'r ffi a godir yn ddigon ar gyfer y wir gost a ddaw i ran y llys neu'r tribiwnlys wrth brosesu'r gwaith y codir tâl amdano.¹
- Incwm ffioedd a gollwyd dan system dileu ffioedd (hepgor). Yn 2011/12 rhoddwyd caniatâd i ddileu tua 171,000 o ffioedd, ac roedd y rhain yn werth cyfanswm o £27.8m.¹

Nod gyffredinol y Llywodraeth yw lleihau cymhorthdal y trethdalwr ar gyfer materion sifil drwy sicrhau bod incwm ffioedd yn talu cost darparu gwasanaethau yn llawn, llai yr incwm a gollwyd i'r system dileu ffioedd. Mewn geiriau eraill, rydym yn dymuno i gyfraniad y trethdalwr gael ei gyfyngu i'r rhai hynny na allant fforddio talu ffioedd, gyda'r defnyddiwr yn talu lle mae'n bosibl iddo wneud hynny. O ran tribiwnlysoedd, y nod yw adennill cymaint o'r costau ag sy'n bosibl, a chytunwyd ar dargedau ar wahân sy'n is nag adennill costau llawn â Thrysorlys Ei Mawrhydi.

Mae'r adolygiad o'r system dileu ffioedd yn cael ei ysgogi gan dri ffactor: y manteision gweithredol posibl a fyddai'n dod yn sgil un system ar gyfer materion sifil a thribiwnlysoedd, yr angen i ddiwygio'r system o ganlyniad i newidiadau sy'n i'r system lles; ac awydd i wella'r system bresennol. Mae'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn yn rhan o strategaeth y Llywodraeth i ddiogelu mynediad at gyfiawnder drwy system dileu ffioedd sydd wedi'i thargedu'n dda. Byddant hefyd yn darparu gwell system dileu ffioedd fel bod y rhai sy'n gallu fforddio talu ffi yn gwneud hynny.

Bydd gweithredu'r cynigion a amlinellir isod yn golygu y bydd cyfraniad y trethdalwr tuag at ddileu ffioedd yn cael ei dargedu tuag at y rhai hynny sydd ei angen fwyaf. Gellir crynhoi'r cynigion fel a ganlyn:

- Cyflwyno un system dileu ffioedd ar gyfer materion sifil a thribiwnlysoedd a fydd yn cael ei gweithredu gan Wasanaeth Llysoedd a Tribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (gan Gynnwys y Panel Cydnabod Rhyw) a Goruchaf Lys y Du. Ni fydd y cynigion yn berthnasol i'r Siambr Mewnffudo a Lloches (Tribiwnlys Haen Gyntaf) sydd â system dileu ffioedd ar wahân a fu'n destun ymgynghoriad gan y Llywodraeth yn ddiweddar,² na Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder;
- Newid i'r budd-daliadau a fydd yn cael eu derbyn fel prawf o hawl i gael ffi wedi'i dileu, o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol;
- Cyflwyno prawf cyfalaf gwario i'r meini prawf cymhwyster;

¹ Cyfrifon blynyddol GLITEM 2011/12. Yn cynnwys dileu ffioedd yn y tribiwnlys Haen Gyntaf lloches a mewnfudo, sydd heb ei gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

² Dileu Ffioedd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Lloches a Mewnffudo) - ymateb i'r ymgynghoriad: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/fee-remissions-immigration-asylum>

- Dileu budd-dal cymhwysol ar gyfer “Credyd Treth Gwaith ond heb fod yn cael Credyd Treth Plant hefyd”;
- Cyflwyno un asesiad incwm sy'n graddol leihau yn lle meini prawf Dileu Ffi 2 a 3 sy'n cael eu defnyddio yn y mwyafrif o lysoedd ar hyn o bryd (byddai ymgeiswyr am ddileu ffi sydd ag incwm misol gros sy'n is na throthwy penodol yn gymwys yn awtomatig i gael dileu'r ffi'n llawn, tra byddai'n ofynnol i ymgeiswyr sydd uwchben y throthwy hwn dalu cyfraniad);
- Tynnu ffioedd a delir am lungopïo a chwiliadau o gwmpas y darpariaethau dileu ffioedd; a
- Lleihau hyd y cyfnod ar gyfer gwneud ôl-gais am ddileu'r ffi o chwe mis i ddau fis.

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn amlinellu diwygiad helaeth o'r system dileu ffioedd at ddibenion ymgynghori. Anelir yr ymgynghoriad at grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb mewn mynediad at gyfiawnder yn y llysoedd sifil, y tribiwnlysoedd a'r Panel Cydnabod Rhyw. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn berthnasol i Oruchaf Lys y DU.

Mae'r cynigion ar gyfer dileu ffioedd sy'n cael eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r llysoedd sifil yng Nghymru a Lloegr, awdurdodaeth bresennol tribiwnlysoedd heb eu datganoli yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, Panel Cydnabod Rhyw y DU a Goruchaf Lys y DU.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori'r llywodraeth.³ Mae'r cyfnod ymgynghori yn bedair wythnos.

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori at y rhanddeiliaid yn Atodiad J. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon i fod yn gyflawn nac yn gyfyngedig a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn ynglŷn â'r pwnc a drafodir yn y papur hwn.

³ Egwyddorion Ymgynghori: Canllaw. <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Cefndir a Strategaeth

1. Mae'r cynigion sy'n cael eu hamlinellu yn y papur ymgynghori hwn yn disgrifio diwygiad helaeth o'r system dileu ffioedd. Mae'r system dileu ffioedd yn sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn cael ei gynnal i'r unigolion hynny ar incwm is a fyddai'n cael anhawster fel arall i dalu ffi er mwyn defnyddio gwasanaethau llys neu dribiwnlys. Gall unigolion o'r fath, felly, ddefnyddio gwasanaethau llys neu dribiwnlys am ddim neu am bris rhatach. Mae dileu ffioedd yn golygu bod y ffioedd sy'n dod yn daladwy pan fo unigolyn yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn cael eu hepgor yn llawn neu yn rhannol.
2. Mae system dileu ffioedd bresennol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn cynnwys tair elfen, y cyfeirir atynt hefyd fel meini prawf cymhwyster cymhwysol:
 - Dileu Ffi 1 – dileu'r ffi yn llawn yn awtomatig ar gyfer y rhai hynny sy'n derbyn budd-daliadau cymhwysol penodedig sy'n dibynnu ar brawf modd, a elwir yn fudd-dal wedi'i awdurdodi;
 - Dileu Ffi 2 – dileu'r ffi yn llawn ar gyfer y rhai hynny y cyfrifir bod eu hincwm blyneddol gros yn is na throthwyon penodedig; a
 - Dileu Ffi 3 – dileu'r ffi yn llawn neu'n rhannol ar sail prawf modd incwm a gwariant i gyfrifo incwm gwario misol net. Mae Atodiad A yn cynnwys crynodeb manylach o'r system dileu ffioedd bresennol.
3. Mae system dileu ffioedd GLITEM yn cael ei defnyddio gan y llysoedd i gyd ar wahân i'r Llys Gwarchod. Fodd bynnag, mae nifer o wahanol systemau dileu ffioedd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd yn y tribiwnlysoedd sy'n codi ffi a'r Panel Cydnabod Rhyw. Mae Atodiad B yn cynnwys rhagor o fanylion am y systemau dileu ffioedd amrywiol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd.
4. O ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012, bydd y rhan fwyaf o'r budd-daliadau gwladol cymhwysol presennol sy'n awdurdodi'r rhai sy'n gwneud cais am gael dileu ffioedd i gael hepgor y ffi yn llawn (Gostyngiad 1) yn cael eu cyfuno i ffurfio un budd-dal oed gweithio newydd a elwir yn Gredyd Cynhwysol o fis Hydref 2013 ymlaen.
5. Prif amcan y cynigion diwygio hyn yw creu un system dileu ffioedd (hepgor) ar gyfer yr holl lysoedd a thribiwnlysoedd lle telir ffi⁴ sy'n syml i'w defnyddio, yn fwy costeffeithlon ac wedi'i thargedu'n well. Yn fwy penodol, dylai'r system gyflawni'r amcanion a ganlyn:
 - **Wedi'i thargedu'n dda ac yn fforddiadwy**, yn cynorthwyo'r rhai hynny sydd o ddifrif yn methu â fforddio ffi, gan leihau'r gost weinyddol. Dylai'r system ddal i ddiogelu mynediad at gyfiawnder faint bynnag yw'r ffi sydd i'w thalu. Dylai cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi fod yn seiliedig ar allu unigolyn i fforddio'r ffi dan sylw, lle bynnag y mae'n cael ei chodi;
 - **Syml a thryloyw**, yn hawdd i'w deall i ymgeiswyr sy'n gwneud cais ac yn hawdd i'w deall a'i gweinyddu i staff y llys. Dylid rhoi digon o gyhoeddusrwydd i'r system

⁴ Ac eithrio'r Siambr Mewnfudo a Lloches (Tribiwnlys Haen Gyntaf).

a'r meini prawf cymhwysol a dylai fod yn hawdd i'w deall ac, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, dylai'r broses ddibynnu ar wybodaeth a thystiolaeth sy'n hawdd ar y cyfan i ymgeiswyr ei darparu; a

- **Cyson**, o ran y meini prawf sy'n gymwys mewn gwahanol feysydd busnes neu yn ôl y math o hawliad, a bod y meini prawf yn cael eu cymhwysu'n ymarferol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd unigol.
6. Rydym yn cydnabod bod angen cydbwysedd rhwng yr amcanion hyn, yn enwedig y ddau gyntaf. Er enghraifft, os yw system wedi'i thargedu'n dda, efallai y bydd yn fwy cymhleth o ran ei chynllun.⁵ Mae'r cynigion, felly, yn ceisio cael cydbwysedd priodol rhwng yr ystyriaethau hyn.

Strategaeth Ffioedd

7. Yn 2011/12 roedd cost rhedeg y materion annhroseddol sy'n cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi o gwmpas £713m. O'r swm hwn roedd 67% yn cael ei ariannu drwy ffioedd (£480m) a'r 33% arall yn cael ei ariannu gan y trethdalwr (£233m) fel rhan o setliad gwariant y Weinyddiaeth Gyfiawnder. O'r swm hwn, roedd yr incwm a gollwyd dan system dileu ffioedd (hepgor) yn £27.8m⁶.
8. Nod gyffredinol y Llywodraeth yw lleihau cymhorthdal y trethdalwr ar gyfer y llysoedd sifil drwy sicrhau bod incwm ffioedd yn talu cost darparu gwasanaethau yn llawn, llai yr incwm a gollwyd i'r system ddileu ffioedd. Cytunwyd ar dargedau adennill costau ar wahân gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer materion tribiwnlysoedd gan ganiatáu dileu ffioedd er mwyn sicrhau nad yw mynediad at gyfiawnder yn cael ei wrthod oherwydd methiant i fforddio ffioedd penodedig.
9. Mae'r cynigion sydd yn y papur ymgynghori hwn yn rhan o strategaeth y Llywodraeth i ddiogelu mynediad at gyfiawnder drwy system dileu ffioedd, wedi'i thargedu'n dda, sy'n cael ei hysgogi gan y ffactorau a nodwyd uchod.

Cyfiawnder Sifil: Y Sefyllfa Bresennol

10. Mae'r system cyfiawnder sifil yng Nghymru a Lloegr yn mynd drwy gyfnod o newid mawr ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod ymgyfreithwyr yn setlo eu hanghydfodau yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost-effeithiol sy'n bosibl.
11. Bydd y diwygiadau hyn yn lleihau costau ac yn creu system gyfiawnder fwy effeithiol ac effeithlon. Maent yn ffurfio rhan allweddol o gynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer 2011-2015⁷. Mae'r cynllun busnes yn nodi gweledigaeth yr adran i ddiwygio llysoedd, tribiwnlysoedd a chymorth cyfreithiol, ac yn rhoi manylion am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon.

⁵ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Profi Modd. http://www.nao.org.uk/publications/1012/means_testing.aspx

⁶ Cyfrifon blynyddol GLITEM 2011/12. Yn cynnwys dileu ffioedd yn y tribiwnlys Haen Gyntaf lloches a mewnfudo, sydd heb ei gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

⁷ Cynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2011-2015: www.number10.gov.uk/wp-content/uploads/MOJ-Business-Plan1.pdf

Diwygio Cymorth Cyfreithiol

12. Roedd darpariaethau Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013 yn gwneud nifer o newidiadau i gwmpas cymorth cyfreithiol.
13. Mae diddymu darpariaeth cymorth cyfreithiol ar gyfer mathau penodol o achosion o fis Ebrill 2013 ymlaen yn golygu bod angen i'r unigolion hynny, a fyddai wedi bod yn cael cymorth cyfreithiol o'r blaen, dalu'r ffi os ydynt yn dymuno defnyddio'r gwasanaeth. Gallai cyfyngu ar gwmpas a chymhwyster y cynllun cymorth cyfreithiol effeithio ar ymddygiad darpar ymgeiswyr am ddileu ffi.

Ffioedd Tribiwnlys Cyflogaeth

14. Ymgynghorodd y Llywodraeth rhwng Rhagfyr 2011 a Mawrth 2012 ar godi ffioedd yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r tribiwnlys apêl cyflogaeth.⁸ Cyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2012.⁹ Penderfynodd y Llywodraeth gyflwyno system dileu ffioedd GLITEM, sy'n cael ei gweinyddu yn y llysoedd sifil, i strwythurau ffioedd tribiwnlysoedd cyflogaeth,¹⁰ a nododd y byddai'r system dileu ffioedd yn cael ei diwygio yn dilyn yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Datrys Anghydfodau yn y Llysoedd Sirol

15. Cyhoeddwyd ymgynghoriad gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ym mis Mawrth 2011 dan y teitl "Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol: creu system symlach, gyflymach a mwy cymesur".¹¹ Roedd yr ymgynghoriad yn nodi cynigion ar gyfer diwygiad helaeth i'r system cyfiawnder sifil, gan gynnwys cynyddu'r defnydd o ddulliau eraill o ddatrys anghydfodau, newid cydbwysedd materion sifil rhwng yr Uchel Lys a'r llysoedd sirol a sefydlu un llys sirol ar gyfer Cymru a Lloegr.
16. Roedd y cynigion yn amlinellu trefniadau atgyfeirio awtomatig i gyfryngu ar gyfer hawliadau bychain, a sesiynau gorfodol i roi gwybodaeth am gyfryngu ar gyfer achosion ar wahân i hawliadau bychain. Bydd cynnydd yn y defnydd o gyfryngu'n effeithio ar nifer yr achosion sy'n cyrraedd gwrandawriad terfynol a gallai felly leihau nifer y ceisiadau am ddileu ffioedd.
17. Yn ychwanegol at hyn, byddai newid cydbwysedd awdurdodaeth y llysoedd sifil yn sicrhau defnydd mwy effeithlon o adnoddau barnwrol gan arwain at ddatrys anghydfodau'n gyflymach. Byddai dileu ffiniau daearyddol ac awdurdodaethol o strwythur y llysoedd sirol i greu un llys sirol ag awdurdodaeth genedlaethol hefyd yn helpu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder sifil lle gall ymgyfreithwyr gael eu hanghydfodau wedi eu datrys mewn ffordd fwy cymesur a chyflymach.

⁸ Codi ffioedd yn y tribiwnlys cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/et-fee-charging-regime-cp22-2011>

⁹ Ffioedd tribiwnlys Cyflogaeth – ymateb i'r ymgynghoriad: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/et-fee-charging-regime-cp22-2011/results/employment-tribunal-fees-consultation-response.pdf>

¹⁰ Byddai'r cynigion yn berthnasol i strwythurau'r tribiwnlys cyflogaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

¹¹ Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol: creu system symlach, gyflymach a mwy cymesur: <http://www.justice.gov.uk/consultations/consultation-cp6-2011>

Diwygiadau Cyfiawnder Teuluol

18. Mae'r Bil Plant a Theuluoedd, sydd gerbron y senedd ar hyn o bryd, yn ceisio gwneud diwygiadau sylweddol i'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder graffu arno cyn y broses ddeddfu, mae'r pecyn o newidiadau cyfiawnder teuluol yn ceisio cyflymu achosion a chynyddu'r defnydd o gyfryngu teuluol a dulliau eraill o ddatrys anghydfodau er mwyn sicrhau bod modd datrys mwy o achosion heb fynd i'r llys lle bynnag y mae hyn yn briodol ac yn ddiogel a helpu rhieni i roi lle canolog i'w plant wrth wneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol.
19. Ar gyfer achosion cyfraith teulu cyhoeddus, bydd cyllid cymorth cyfreithiol yn parhau. Mewn achosion cyfraith teulu preifat, fodd bynnag, roedd newidiadau i gwmpas cymorth cyfreithiol o fis Ebrill 2013 ymlaen yn dileu cyllid ar gyfer cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol ac eithrio mewn achosion lle mae tystiolaeth o drais domestig neu gam-drin plant a rhai eithriadau cyfyngedig eraill. Bydd cyllid yn parhau, fodd bynnag, ar gyfer cyfryngu teuluol i'r rhai hynny sy'n gymwys.

Adolygiad o Wariant y Llywodraeth

20. Yn ogystal â'r newidiadau penodol hyn, rhaid i'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon gael eu gweld mewn cyd-destun economaidd ehangach. Cyhoeddodd setliad Adolygiad o Wariant 2010 arbedion o 23% i gyllideb yr adran o £8.3bn. Yn Natganiad Cyllideb Hydref 2012 y Canghellor, gofynnwyd i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wneud arbedion ychwanegol o 1% yn 2013 a 2% pellach yn 2014. Yn Natganiad Cyllideb Gwanwyn 2013, gofynnwyd i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wneud arbedion o 1% pellach yn 2013 a 2014.
21. Mae'n hollbwysig, felly, fod arbedion yn cael eu gwneud lle bynnag y mae hynny'n bosib. O ran y strategaeth ffioedd, mae hyn yn golygu gwneud arbedion effeithlonrwydd, a lle disgwylir i ffioedd dalu cost lawn y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu, eu bod yn gwneud hynny. Lle bo rhywun yn methu â fforddio ffi, rhaid inni dargedu cymhorthdal y trethdalwr tuag at y rhai hynny sydd â'r angen mwyaf.

1. Un system dileu ffioedd

1. Mae'r systemau dileu ffioedd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn gwahanol lysoedd a thribiwnlysoedd yn amrywio. Mae'r cynnig hwn yn darparu un system dileu ffioedd i ddefnyddwyr yr holl lysoedd sy'n cael eu gweithredu gan GLITEM, Goruchaf Lys y DU a'r holl dribiwnlysoedd, ac eithrio'r Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches Haen Gyntaf.
2. Mae pob llys a thribiwnlys sy'n codi ffi yn gweithredu system dileu ffioedd (hepgor ffioedd) er mwyn sicrhau nad yw ymgeiswyr unigol sy'n methu â fforddio ffioedd yn cael eu hamddifadu o fynediad at eu gwasanaethau. Gan ddibynnu ar amgylchiadau ariannol yr unigolyn, gellir dileu'r ffi gyfan neu ran ohoni (lle bydd yr unigolyn yn talu cyfraniad tuag at ei ffi). Ar hyn o bryd, mae cymhwyster ar gyfer dileu ffioedd yn amrywio rhwng gwahanol lysoedd a thribiwnlysoedd. Er enghraifft, byddai person sengl ag incwm blynyddol gros o £12,500 yn gymwys ar gyfer dileu'r ffi yn llawn yn y Llysoedd Sifil, ond dim ond ar gyfer ei dileu yn rhannol (75%) yn y Llys Gwarchod.
3. Mae'r Llywodraeth yn credu y byddai un system dileu ffioedd yn i ddefnyddwyr ei deall a'i defnyddio. Byddai hefyd yn helpu i sicrhau mwy o effeithlonrwydd a chysondeb wrth weinyddu'r gwaith o ddileu ffioedd, gan y byddai penderfyniadau ynglŷn â'r hawl i ddileu ffi yn cael eu gwneud ar yr un sail beth bynnag yw natur y llys neu'r tribiwnlys lle codir y ffi. Byddai system o'r fath yn fwy tryloyw i ddefnyddwyr ac yn decach, gan y byddai hawl i ddileu ffi yn gwbl seiliedig ar allu'r ymgeisydd i fforddio'r ffi, ac ni fyddai'n amrywio yn ôl natur y llys neu'r tribiwnlys y mae'n ei ddefnyddio.
4. Mae'r cynnig hwn yn ymdrin â gweinyddu'r gwaith o ddileu ffioedd yn yr holl lysoedd a thribiwnlysoedd lle codir ffi, gan gynnwys:
 - Llysoedd Sifil (Cymru a Lloegr), sy'n ymdrin â datrys anghydfodau sifil mewn nifer o wahanol feysydd gan gynnwys dyledion, anafiadau personol, cyfraith defnyddwyr a chontractau a diogelu hawliau unigol;
 - Llysoedd Teulu (Cymru a Lloegr), sy'n ymdrin â theluedd yn chwalu, materion yn ymwneud â magu plant a pherthynas rhwng cyplau;
 - Llysoedd Ynadon (Cymru a Lloegr), sy'n ymdrin ag achosion troseddol ond hefyd yn gwrando rhai achosion sifil a theulu. Dim ond ag achosion sifil a theulu (annrhoseddol) yn y llysoedd hyn y bydd y cynigion yn ymdrin;
 - Y Llys Gwarchod (Cymru a Lloegr), sy'n ymdrin â gwneud penderfyniadau ar ran pobl nad ydynt o bosibl yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain;
 - Gwasanaethau Profiant (Cymru a Lloegr), sy'n ymdrin ag ystad rhywun ar ôl iddo farw;
 - Yr Uchel Lys (Cymru a Lloegr), uwchlys sy'n ymdrin ag achosion teulu, sifil a phroffiant cymhleth o werth mawr (yn y 'gwrandawriad cyntaf' ac achosion sy'n cael eu cyfeirio i'r Uchel Lys);
 - Y Llys Apêl (Cymru a Lloegr), sy'n ymdrin ag apeliadau o lysoedd is (megis adrannau yn yr Uchel Lys);

- Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig (y DU) sef y llys apêl terfynol ar gyfer achosion sifil yn y DU ac ar gyfer achosion troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon;
 - Pob Tribiwnlys codi tâl sy'n cael ei weithredu gan GLITEM. Mae'r rhain yn gyrrff barnwrol arbenigol sy'n penderfynu ynglŷn ag anghydfodau mewn maes cyfreithiol penodol;
 - Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru, Lloegr a'r Alban), sy'n ymdrin ag anghydfodau yn ymwneud â chyflogaeth;
 - Tribiwnlysoedd Apêl Cyflogaeth (Cymru, Lloegr a'r Alban), sy'n ymdrin ag apeliadau o'r Tribiwnlys Cyflogaeth;
 - Apeliadau Gamblo (Cymru, Lloegr a'r Alban), sy'n ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn Gamblo;
 - Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau¹² (Lloegr), sy'n ymdrin â mathau amrywiol o anghydfodau sy'n ymdrin ag eiddo lesddaliad preswyl;
 - Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Lloegr), sy'n ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â chartrefi cyngor neu barciau;
 - Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) (Cymru a Lloegr), sy'n ymdrin ag anghydfodau yn ymwneud â thir (gan gynnwys apeliadau o'r Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau a'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl);¹³ a
 - Panel Cydnabod Rhyw (y DU), sy'n rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol o ryw newydd unigolyn (dyma'r unig drywydd yn y DU ar gyfer cydnabyddiaeth gyfreithiol o'r fath);
5. Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig ymestyn y system dileu ffioedd i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Mewnffudo a Lloches) ac mae wedi ymateb i ymgynghoriad ar system dileu ffioedd ar wahân ar gyfer y tribiwnlys hwn.¹⁴ Mae defnyddwyr y tribiwnlys hwn ar y cyfan yn dod ag apeliadau lloches neu apeliadau yn erbyn penderfyniadau mewnfudo. Yn y categori olaf mae nifer sylweddol o apelwyr yn byw y tu allan i'r DU ac ni fyddai system dileu ffioedd a fyddai'n seiliedig ar fudd-daliadau a lefelau incwm y DU yn ymarferol i'w gweithredu.

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno mai dim ond un system dileu ffioedd ddylai gael ei gweithredu yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n cael eu gweithredu gan GLITEM ac yng Ngoruchaf Lys y DU? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

¹² O 1 Gorffennaf 2013 ymlaen ffurfi Siambwr Eiddo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf gan uno'r Tribiwnlys Prasio Lesddaliadau, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl (sydd ill dau'n codi ffioedd), y Tribiwnlys Tir Amaethyddol a Thribiwnlys y Dyfarnwr i Gofrestrfa Tir EM (nad yw'n codi ffioedd ar hyn o bryd).

¹³ O 1 Gorffennaf 2013 ymlaen bydd yr Uwch Dribiwnlys yn gwrandao apeliadau o Siambwr Eiddo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. .

¹⁴ Dileu Ffioedd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Lloches a Mewnffudo) - ymateb i'r ymgynghoriad: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/fee-remissions-immigration-asylum>

2. Cymhwyster ariannol ar gyfer dileu ffi

Cyflwyniad

1. Mae'r bennod hon yn amlinellu cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio'r meini prawf cymhwyster ariannol ar gyfer dileu ffioedd. Rhesymeg y Llywodraeth dros ddiwygio yw creu un system dileu ffioedd sy'n hawdd ei defnyddio, yn fwy costeffeithlon ac wedi'i thargedu'n well.
2. Mae'r bennod hon yn cynnwys cynigion i ddiwygio'r system dileu ffioedd a weinyddir mewn llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n cael eu gweithredu gan GLITEM ac yng Ngoruchaf Lys y DU.

Y system arfaethedig

3. Rydym yn cynnig cyflwyno system newydd yn lle'r system dileu ffioedd bresennol a fyddai'n berthnasol i'r holl feysydd busnes lle codir tâl ac eithrio'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches).
4. Mae'r system arfaethedig yn seiliedig ar ddau brawf penodol. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r ddau brawf er mwyn bod yn gymwys i gael dileu ei ffi:
 - Bydd y prawf cyntaf yn pennu a yw ymgeisydd yn gymwys i gael dileu ei ffi ar sail asesiad o gyfalaf gwario ei gartref¹⁵ (e.e. cynilion a buddsoddiadau). Ni fyddai ymgeiswyr â chyfalaf gwario sydd uwchben trothwy penodol yn gymwys ar gyfer dileu'r ffi; a
 - Bydd yr ail brawf yn ystyried a yw ymgeisydd sydd wedi bodloni'r prawf cyfalaf gwario'n cael hepgor ei ffi yn llawn, yn talu cyfraniad tuag at ei ffi ynteu'n talu'r ffi llawn. Bydd ffi'n cael ei hepgor yn llawn os gall yr ymgeisydd ddangos bod incwm ei gartref o dan drothwy penodol. Uwchben y trothwy byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd dalu cyfraniad tuag at y ffi, hyd at werth y ffi, yn seiliedig ar ganran o'i incwm yn fwy na'r trothwy, neu'r ffi llawn lle mae ei incwm yn fwy na'r trothwy o swm penodedig.

Prawf Cyfalaf Gwario

5. Ar hyn o bryd, nid oes yr un o'r systemau dileu ffioedd sy'n cael eu gweithredu yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn ystyried gwerth asedau cyfalaf gwario ymgeisydd wrth ystyried hawl i gael ffi wedi'i dileu. Gall hyn olygu, er enghraifft, y gallai unigolyn ag incwm isel, ond llawer iawn o gynilion fod â hawl i gael ei ffi wedi'i dileu.
6. Credwn nad yw'n briodol cyfeirio adnoddau ariannol prin at ymgeiswyr a allai fod â swm sylweddol o gyfalaf gwario y gellid ei ddefnyddio i dalu eu ffi. Lle bo gan ymgeiswyr gyfalaf gwario, credwn ei bod yn briodol y dylent droi at hwn yn gyntaf cyn defnyddio arian cyhoeddus.

¹⁵ Diffinir uned cartref fel un unigolyn neu cwpl.

7. Ar gyfer ffioedd o hyd at £1000 cynigir bod dileu ffioedd yn cael ei gyfyngu i'r ymgeiswyr hynny nad yw cyfalaf gwario eu cartref¹⁶ yn fwy na £3,000. Ar gyfer ffioedd sydd rhwng £1001 a £4000, cyfyngir dileu ffioedd i'r ymgeiswyr hynny nad yw cyfalaf gwario eu cartref yn fwy nag £8,000. Mewn achosion prin lle gallai ffi fod yn fwy na £4000, byddem yn cynnig cynyddu'r terfyn cyfalaf i £16,000.

Ffi o:	Trothwy cyfalaf gwario:
Hyd at £1000	£3000
Hyd at £4000	£8000
Dros £4000	£16,000

8. Felly, ni fyddai byth yn ofynnol i'r rhai hynny sydd â thros £3000 o gyfalaf gwario cartref wario dim mwy na thraean cyfalaf gwario eu cartref ar ffi. Ni fyddai byth yn ofynnol i'r rhai hynny sydd â dros £8000 o gyfalaf gwario cartref wario mwy na hanner cyfalaf gwario eu cartref ar ffi. Rydym yn ystyried bod y trothwy'n briodol ac yn gymesur yng nghyd-destun ffioedd, gan fod mwyafrif y ffioedd sy'n cael eu talu yn llawer is na'r trothwy £1000. Ychydig iawn o ffioedd sydd ym mhen uchaf y raddfa hon. Yn 2011/12, £142 oedd gwerth cyfartalog ffi a gafodd ei gostwng. Mae Atodiad G yn rhoi rhestr o'r ffioedd penodedig o £800 neu fwy.

Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno y dylid ystyried cyfalaf gwario wrth benderfynu ynglŷn â chymhwyster i gael dileu'r ffi? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno â'r terfynau cyfalaf gwario arfaethedig? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Trin cyfalaf gwario

9. Rydym wedi ceisio datblygu prawf o gyfalaf gwario sy'n ddigon manwl i helpu i sicrhau nad yw unigolion cyfoethog yn cael caniatâd i gael eu ffioedd wedi'u dileu, tra'n cydnabod y gall cymhlethdod y prawf cyfalaf achosi problemau i gartrefi nad ydynt yn deall y meini prawf.¹⁷
10. Mae'r asesiad arfaethedig o gyfalaf gwario'n seiliedig ar y prawf sy'n berthnasol i'r cynllun cymorth cyfreithiol sifil, ond ei fod wedi cael ei symleiddio ar lawer cyfrif. Credwn fod fersiwn wedi'i symleiddio o'r prawf sy'n berthnasol i gymorth cyfreithiol sifil yn briodol yng nghyd-destun ffioedd. Drwy nodi beth rydym yn ei ystyried yn gyfalaf gwario, a beth nad ydym yn ei ystyried yn gyfalaf gwario, mae'r prawf cyfalaf gwario hefyd yn haws i ymgeiswyr a staff ei ddeall a'i ddefnyddio.

¹⁶ Diffinir uned cartref fel un unigolyn neu cwpl.

¹⁷ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Profi Modd.
http://www.nao.org.uk/publications/1012/means_testing.aspx

11. Mae'r canlynol yn amlinellu'r prif fathau o gyfalaf gwario a fyddai'n cael eu hystyried (gweler Atodiad E am ragor o fanylion):
- Pob cyfalaf sy'n cael ei ddal ym mhob math o gyfrifon cynilo, ISAs, bondiau cyfradd sefydlog, bondiau neu gynilion buddsoddi sy'n gysylltiedig â'r farchnad, cronfeydd ymddiriedolaeth, neu unrhyw gronfa arall sydd ar gael i'r ymgeisydd;
 - Stociau neu gyfrannau;
 - Unrhyw fath o gynnyrch ariannol cyfalaf;
 - Taliadau cyfalaf dileu swydd a dderbyniwyd;
 - Ail gartrefi;
 - Unrhyw gyfalaf sy'n cael ei ddal ar y cyd; ac
 - Unrhyw fath o gyfalaf sy'n cael ei ddal y tu allan i'r DU.
12. Mae'r canlynol yn amlinellu'r prif fathau o gyfalaf gwario na fyddai'n cael eu hystyried (gweler Atodiad E am ragor o fanylion):
- gwerth eiddo a thir sy'n cael ei ddefnyddio gan y parti fel ei gartref cyntaf;
 - Taliadau cyfalaf diswyddo annheg a dderbyniwyd;
 - lawndal a gafwyd am anaf personol neu egeuluster meddygol;
 - Cyfalaf sy'n cael ei ddal mewn cynlluniau pensiwn personol, cynlluniau pensiwn galwedigaethol neu gynnyrch yswiriant; ac
 - Unrhyw daliadau sydd i'w hystyried fel incwm.
13. Yn wahanol i gymorth cyfreithiol sifil, ni fyddai'r prawf yn ystyried oed yr ymgeisydd (er enghraifft, ni fydd yn diystyru rhai sydd dros 60 oed). Cred y llywodraeth ei bod yn briodol i'r rhai sydd â modd i dalu ffi wneud hynny, beth bynnag eu hoed. Er hynny, byddai'r prawf yn diystyru gwerth cyfalaf cynlluniau pensiwn galwedigaethol neu bersonol.

Cwestiwn 4

A ydych yn cytuno â thelerau arfaethedig y prawf cyfalaf gwario?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich atebion.

Tystiolaeth i gefnogi'r prawf cyfalaf gwario a gorfodaeth

14. Telir bron bob ffi cyn y gwasanaeth felly y gosb am beidio â thalu yw na fydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, h.y. ni fydd ymgeisydd yn gallu defnyddio'r llys neu'r tribiwnlys. Mae darpariaethau yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil a Thribiwnlysoedd yn caniatáu i achosion gael eu dileu os nad yw'r ffi'n cael ei thalu'n llawn.
15. Wrth asesu cyfalaf ymgeisydd, mae'r Llywodraeth yn ceisio cael prawf syml a thryloyw, nad yw'n faich i ymgeiswyr nac i staff. Nid ydym yn credu bod angen i ymgeiswyr roi dystiolaeth o'u holl gyfalaf gwario, oherwydd byddai'n golygu llawer iawn o waith a byddai'r gwaith prosesu gweinyddol yn gymhleth. Rydym yn cynnig felly, pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais i gael dileu ei ffi, y bydd yn ofynnol iddo ddatgan

gwerth cyfalaf gwario ei gartref¹⁸ drwy 'ddatganiad o'r gwirionedd' ar y ffurflen gais dileu ffi.

16. Bydd y datganiad hwn fel arfer yn ddigon o dystiolaeth o gyfalaf, ond mewn achosion lle mae amheuaeth (er enghraifft, os oes gan ymgeisydd incwm rheolaidd sylweddol o gynilion neu fuddsoddiadau ond ei fod wedi datgan bod ganddo gyfalaf gwario o lai na £3000) gallai Rheolwr Llys neu Dribiwnlys ofyn am dystiolaeth ddogfennol o gyfalaf gwario gan yr ymgeisydd os yw'n credu bod angen hynny. Os canfyddir bod y parti wedi rhoi gwybodaeth anghywir ar y ffurflen wrth wneud cais am ddileu'r ffi, bydd y parti'n dod yn atebol am unrhyw ffioedd perthnasol sydd wedi cael eu gostwng iddynt.

Cwestiwn 5

A ydych yn cytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer tystiolaeth ac â threfniadau gorfodi'r prawf cyfalaf?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Prawf incwm

Dileu'r ffi yn llawn

17. Mae'r ail brawf yn ystyried a fydd ymgeisydd sydd wedi bodloni'r prawf cyfalaf gwario yn cael ei ffi wedi'i dileu yn llawn, yn talu cyfraniad tuag at ei ffi ynteu'n talu'r ffi yn llawn. O dan yr elfen dileu'r ffi yn llawn, cynigir trothwyon incwm misol gros ar gyfer pobl sengl a chyplau, gan ychwanegu lwfans am bob plentyn dibynnol.¹⁹
18. Mae'r llywodraeth wedi dewis ystyried incwm gros misol ymgeisydd (yn hytrach na blynyddol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) gan mai hyn sy'n rhoi'r adlewyrchiad gorau o sefyllfa ariannol bresennol ymgeisydd ac, o ganlyniad, ei allu i dalu ffi. Bydd hyn hefyd yn golygu nad oes angen i ymgeiswyr gyflwyno cymaint o dystiolaeth a bydd yn lleihau'r baich gweinyddol o brosesu tystiolaeth o'r fath i staff.

Tabl 1: Trothwyon incwm arfaethedig:

Incwm misol gros â:	Sengl	Cwpl
Dim plant	£1,085	£1,245
1 plentyn	£1,330	£1,490
2 blentyn	£1,575	£1,735

19. Os oes gan y parti sy'n talu'r ffi fwy na 2 blentyn yna'r swm perthnasol o incwm misol gros yw'r swm a nodir yn y tabl ar gyfer 2 blentyn ynghyd â £245 ar gyfer pob plentyn ychwanegol. Diffinnir ymgeisydd fel un sydd â phlentyn os oes plentyn yn byw gydag ef neu hi a /neu ei fod yn talu am gynhaliaeth plentyn.

¹⁸ Diffinir uned cartref fel un unigolyn neu cwpl.

¹⁹ Diffinir plentyn fel unigolyn dan 16 oed. Bydd rhywun hefyd yn cael ei ddiffinio fel plentyn os yw rhwng 16 a 19 oed a: heb fod yn briod nac mewn Partneriaeth Sifil nac yn byw gyda phartner; ac yn byw gyda rhieni; ac mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu ar gynllun hyfforddiant di-dâl gan y llywodraeth.

20. Rydym yn cynnig derbyn y byddai rhai sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm a chredyd gwarant Credyd Pensiwn yn cael eu hystyried yn awtomatig fel rhai sydd o dan y trothwy incwm hwn ac o ganlyniad y bydd eu ffi'n cael ei dileu yn llawn, os ydynt hefyd yn bodloni'r prawf cyfalaf gwario cartref. Ar hyn o bryd, mae rhai sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith nad ydynt hefyd yn derbyn Credyd Treth Plant yn cael eu hawdurdodi'n awtomatig i gael dileu'r ffi yn llawn mewn rhai llysoedd a thribiwnlysoedd, ac mae rhai sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith ac yn derbyn credyd treth plant yn cael eu hawdurdodi mewn eraill (gweler Atodiad B). Fodd bynnag, gall y budd-dal hwn gael ei dalu i gartrefi y mae eu modd yn uwch na'r lefel a fyddai'n rhoi hawl iddynt gael dileu eu ffi yn llawn dan y prawf incwm misol gros. Rydym yn cynnig felly na ddylai rhai sy'n derbyn unrhyw fath o Gredyd Treth Gwaith fod â hawl awtomatig mwyach i gael eu ffi wedi ei dileu yn llawn ar sail derbyn y budd-dal hwn. Yn lle hyn, rydym yn cynnig y dylai rhai sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith fod yn gymwys i gael dileu eu ffi yn llawn dim ond os gallant ddangos bod incwm misol gros y cartref yn is na'r trothwy perthnasol.
21. O ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012, bydd y rhan fwyaf o'r budd-daliadau gwladol cymhwysol presennol sy'n cael eu defnyddio i awdurdodi ymgeiswyr am ddileu'r ffi i gael y ffi wedi ei hepgor yn llawn yn cael eu cyfuno i ffurfio un budd-dal oed gweithio newydd a elwir yn Gredyd Cynhwysol o fis Hydref 2013 ymlaen.
22. Cymerir yn ganiataol y bydd incwm rhai o blith y sawl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol o dan y trothwy incwm ac felly y bydd eu ffi'n gymwys i gael ei dileu yn llawn, os byddant hefyd yn bodloni'r prawf cyfalaf. Lle'r ydym yn fodlon fod y Credyd Cynhwysol a geir yn hafal i incwm sy'n is na'r trothwy, bwriadwn awdurdodi'r sawl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol drwy'r prawf incwm wedi iddynt gyflwyno eu hysbysiad Credyd Cynhwysol.
23. Nid ydym eto wedi pennu'r lefel ar gyfer awdurdodi'r sawl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn y modd hwn, ond er mwyn egluro rydym wedi defnyddio trothwy o 'Credyd Cynhwysol gydag enillion sy'n llai na £6000' yn ein Asesiad o Effaith. Cynlluniwyd y maen prawf eglurhaol hwn er mwyn efelychu'n fras y nifer sy'n cael eu hawdurdodi drwy'r budd-daliadau cymhwysol presennol dan amodau Credyd Cynhwysol. Bwriadwn ddefnyddio'r llythyr Hysbysu ynglŷn â Dyfarnu Credyd Cynhwysol i gadarnhau cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi yn llawn ar y sail hon.
24. Rydym wedi ystyried a ddylai pawb sy'n derbyn Credyd Cynhwysol fod yn gymwys yn awtomatig dan y prawf incwm. Fodd bynnag, amcangyfrifwyd y byddai gan tua 2.6m yn fwy o oedolion hawl i gael ryw elfen o Gredyd Cynhwysol nag a fyddai â hawl i gael y ffi wedi ei dileu yn llawn dan y prawf incwm gros arfaethedig. Gallai caniatáu dileu ffi yn llawn yn awtomatig i rai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol felly gostio hyd at £4m mewn ffioedd ychwanegol wedi eu dileu yn llawn. Rydym wedi dod i'r casgliad felly na ddylai pawb sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gymhwyso'n awtomatig ar gyfer dileu ffi yn llawn.

Dileu'r ffi yn rhannol

25. Dan system dileu ffioedd bresennol GLITEM, gall ffi ymgeisydd gael ei dileu yn rhannol yn dilyn asesiad o'i incwm gwario misol dan brawf Dileu Ffi 3. Os oes gan ymgeisydd incwm gwario misol o fwy na £50, bydd yn cyfrannu £2.50 am bob £10 yn ychwanegol o incwm hyd at £919, a £5 am bob £10 yn ychwanegol o incwm dros £919. Mae'r prawf Dileu Ffi 3 presennol yn ystyried agweddau cymhleth ar incwm a gwariant (h.y. incwm, pensiynau, costau tai, costau gofal plant) ac mae'n ofynnol i

ymgeiswyr roi llawer iawn o dystiolaeth i gefnogi eu cais. Gallai annhegwch godi hefyd wrth ystyried costau tai, oherwydd byddai ymgeisydd sydd â morgais mawr ar gyfer cartref drud yn cael y gwariant hwn wedi'i ddiynnu'n llawn.

26. Mae'r Llywodraeth yn credu bod prawf Dileu Ffi 3 ar gyfer dileu'r ffi yn rhannol yn gymhleth i ddefnyddwyr ei ddeall ac yn feichus i ymgeiswyr a staff. Rydym felly'n cynnig symleiddio'r fformiwla ar gyfer cyfrifo cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi yn rhannol drwy ddefnyddio'r un trothwyon incwm misol gros a ddefnyddir i asesu hawl i gael ffi wedi ei dileu yn llawn yn lle prawf Dileu Ffi 3. Disgwylid i'r rhai hynny sydd ag incwm uwchben y trothwyon datganedig dalu cyfraniad tuag at y ffi, a fydd yn cynyddu yn unol ag incwm.
27. Cynigir y byddai cyfraniad o £5 yn ofynnol ar gyfer pob £10 yn ychwanegol o incwm uwchben y trothwy. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, lle bo gan ymgeisydd £100 yn ychwanegol o incwm misol uwchben y trothwy perthnasol, y bydd yn ofynnol iddo dalu £50 tuag at ei ffi, neu swm llawn y ffi os yw hyn yn £50 neu lai. I gynorthwyo defnyddwyr, crëwyd cyfrifydd cyfraniad sy'n dangos y cyfraniadau sy'n daladwy ac mae ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>. Mae Atodiad D hefyd yn cynnwys tabl sy'n nodi'r cyfraniad sy'n ofynnol mewn rhai mathau nodweddiadol o achosion.
28. Nid yw'r system dileu ffioedd bresennol yn y llysoedd sifil yn amodol ar gap incwm. O ganlyniad, gall ymgeiswyr sydd o bosibl â swm sylweddol o incwm y gellid ei ddefnyddio i dalu eu ffi gael eu ffioedd wedi eu dileu. Credwn nad yw'n briodol bod adnoddau ariannol prin yn cael eu cyfeirio tuag at ymgeiswyr a all fforddio talu'r ffi. Cynigiwn felly fod cap incwm misol gros yn cael ei gyflwyno fel nad yw'r rhai hynny sydd ag incwm o fwy na £4000 uwchben y trothwyon datganedig ar gyfer dileu'r ffi yn llawn yn gymwys ar gyfer dileu'r ffi yn rhannol ac y byddent yn talu'r ffi'n llawn.

Cwestiwn 6

A ydych yn cytuno bod y cynigion hyn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran targedu cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi yn llawn ac yn rhannol drwy system syml ac ymarferol?

Os nad ydych yn cytuno, eglurwch pam, a pha ddewisiadau eraill rydych yn eu cynnig.

Cwestiwn 7

A ydych yn cytuno y dylid cael cap incwm misol gros fel na fyddai'r rhai hynny sydd ag incwm penodol yn gymwys ar gyfer dileu ffi yn rhannol ac y byddent yn talu'r ffi'n llawn?

Os felly, a ydych yn cytuno bod un cap o £4000 yn briodol ynteu a ddylai'r Llywodraeth ystyried amrywio'r cap ar gyfer gwahanol lefelau o ffi?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Tystiolaeth i gefnogi'r prawf incwm

29. Telir yr holl ffioedd bron cyn y gwasanaeth felly'r gosb am beidio â thalu yw na fydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, h.y. ni fydd ymgeisydd yn gallu defnyddio'r llys neu'r tribiwnlys.²⁰ O ran dileu ffioedd, gall achos o beidio â thalu ffioedd ddigwydd pan fo cais am ddileu'r ffi yn cael ei wrthod gan fod yr ymgeisydd heb gyflwyno digon o dystiolaeth neu wedi rhoi dystiolaeth anghywir. Er nad ydym yn casglu data ynglŷn â pha mor gyffredin yw gwrthodiadau o'r fath, gwyddom nad yw hyn yn anghyffredin. Roedd adroddiad PricewaterhouseCoopers "Is the 2007 court remission system working?"²¹ yn argymhell y dylid symleiddio'r meini prawf ar gyfer dileu ffioedd, gan roi sylw penodol i swm a manylder y dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen.

30. Wrth asesu incwm ymgeisydd, mae'r Llywodraeth yn ceisio cael prawf incwm sy'n hawdd ei ddeall ac yn llai beichus i ymgeiswyr a staff. Mae Atodiad F yn cynnwys crynodeb manwl o'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn gwneud cais am ddileu'r ffi yn llawn neu yn rhannol ar sail incwm. Ceir crynodeb isod:

- Tystiolaeth ddogfennol o fudd-dal cymhwysol fel sy'n cael ei chyhoeddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rhaid iddi ddangos teitl, enw llawn, cyfeiriad a chod post yr ymgeisydd a chadarnhau bod yr ymgeisydd wedi derbyn y budd-dal. Rhaid i'r dyddiad ar y dystiolaeth fod yn ystod y mis diwethaf, neu'r flwyddyn ariannol gyffredol ar gyfer credyd gwarant Credyd Pensiwn.

NEU

- Datganiadau banc tri mis²² yn ogystal â'r dystiolaeth a nodir isod:
 - i) **Cyflogaeth am dâl:** rhaid i ymgeiswyr ddarparu eu slipiau cyflog gwreiddiol diweddaraf o'u holl swyddi.
 - ii) **Hunangyflogaeth:** rhaid i ymgeiswyr ddarparu eu ffurflen dreth ddiweddaraf (Hunanasesiad), a naill ai eu Cyfrifiad Treth Hunanasesiad HMRC diweddaraf neu brawf arall o incwm presennol;
 - iii) **Ffynhonnell incwm arall:** rhaid i ymgeiswyr ddarparu dogfennau eraill os nad yw'r ffynonellau incwm eraill wedi eu rhestru yn eu datganiadau banc.

31. Ein nod yn y tymor hir yw gwirio gwybodaeth am dderbyn budd-daliadau cymhwysol a gwybodaeth arall am ymgeiswyr yn electronig. Byddai hyn yn golygu nad oes angen i ddefnyddwyr ddarparu cymaint o dystiolaeth er mwyn cael dileu eu ffi. Mae'r Bil Trosedd a Llysoedd (Cymal 26)²³ yn darparu ar gyfer hyn, drwy ganiatáu i'r Adran Gwaith a Phensiynau rannu data ymgeiswyr gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn penderfynu ynglŷn â chymhwyster ar gyfer dileu'r ffi. Rydym yn ystyried y dewisiadau ar gyfer cyflwyno system TG i gyflawni'r gwaith hwn ar hyn o bryd

²⁰ Mae darpariaethau yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil a Thribiwnlysoedd yn caniatáu i achosion gael eu dileu os nad yw'r ffi'n cael ei thalu'n llawn.

²¹ A yw'r system 2007 dileu ffioedd y llys yn gweithio?: <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100111120959/http://www.justice.gov.uk/publications/docs/2007-court-fee-remission-system.pdf>

²² Er mai dim ond ar gyfer y mis cyn eu cais am ddileu ffi y byddai'n ofynnol i ymgeiswyr gyflenwi slipiau cyflog, byddwn yn dal i ofyn am ddatganiadau banc am gyfnod o 3 mis fel bod staff y llys neu'r tribiwnlys yn gallu canfod ceisiadau twyllodrus.

²³ Datgelu gwybodaeth ar gyfer cyfrifo ffioedd yn y llys, tribiwnlysoedd ayyb: http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2012-2013/0137/cbill_2012-20130137_en_4.htm#pt2-pb1-1g26

Cwestiwn 8

A ydych yn cytuno â'r gofynion arfaethedig am dystiolaeth ar gyfer y prawf incwm?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Trin incwm

32. Mae'r system arfaethedig yn seiliedig ar incwm misol gros ar gyfer y mis cyn y mis pan mae'r cais yn cael ei wneud. Dylai'r dull hwn ei gwneud yn haws i ddarpar ymgeiswyr ddeall a ydynt yn gymwys, ac i wneud cais.
33. Rydym yn sylweddoli na fydd ymgeiswyr hunangyflogedig bob amser yn derbyn incwm yn ystod y mis cyn y mis pan fydd y cais yn cael ei wneud. Cynigir bod incwm misol gros ar gyfer ymgeiswyr hunangyflogedig yn cael ei gyfrifo o gyfran yr unigolyn o'r elw net ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu diwethaf y paratowyd cyfrifon ar ei gyfer, neu dyniadau'r person dan sylw yn ystod y mis pan mae'r cais yn cael ei wneud.
34. Ar hyn o bryd, mae rhai budd-daliadau gwladol yn cael eu diystyru wrth gyfrifo incwm gros, gan fod y rhan fwyaf o'r budd-daliadau hyn yn cefnogi rhywun sydd ag anabledd (e.e. taliadau sy'n talu costau gofal) neu'n cyfrannu tuag at gostau gofal plant. Gelwir y budd-daliadau hyn yn 'fudd-daliadau eithriedig'. O ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012, bydd budd-daliadau gwladol newydd yn cymryd lle llawer o'r budd-daliadau eithriedig presennol, er enghraifft bydd elfennau tai Credyd Cynhwysol a Chredyd Pensiwn yn cymryd lle'r Budd-dal Tai. Rydym yn cynnig bod y newidiadau a ganlyn yn cael eu gwneud i fudd-daliadau eithriedig:
- Dylai budd-daliadau gwladol sy'n cael eu cyflwyno'n uniongyrchol yn lle'r 'budd-daliadau eithriedig' presennol gael eu diystyru wrth gyfrifo incwm misol gros; mae hyn yn cynnwys:
 - unrhyw elfen credyd tai o gredyd pensiwn, sy'n cymryd lle Budd-dal Tai;
 - Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, sy'n cymryd lle Lwfans Byw i'r Anabl; ac
 - unrhyw rai o'r budd-daliadau a ganlyn sy'n daladwy dan Ddeddf Diwygio Lles 2012 –
 - i. uchafswm unrhyw ychwanegiad plentyn anabl, sy'n cymryd lle elfennau anabledd credyd treth plant;
 - ii. uchafswm yr elfen costau tai, sy'n cymryd lle Budd-dal Tai;
 - iii. uchafswm yr elfen costau plant, sy'n cymryd lle elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith;
 - iv. blaensymiau cyllidebu a thymor byr, sy'n cymryd lle Benthyciadau Argyfwng a Chyllidebu; a
 - v. Taliad Annibyniaeth Bersonol, sy'n cymryd lle Lwfans Byw i'r Anabl.

- Budd-daliadau gwladol sydd wedi cael eu cynllunio i ddarparu ar gyfer plentyn anabl, gofal plant neu brofedigaeth, ond nad ydynt yn cael eu rhestru ar hyn o bryd fel budd-dal eithriadig:
 - unrhyw elfen plant anabl neu elfen plant ag anabledd difrifol o'r credyd treth plant;
 - unrhyw elfen gofal plant o'r credyd treth plant;
 - Lwfans Profedigaeth; a
 - Lwfans Rhieni Gweddw.

Mae Atodiad E yn cynnwys rhagor o fanylion am y diffiniad arfaethedig o incwm gros.

Adnoddau partneriaid

35. Mae'r system dileu ffioedd arfaethedig yn seiliedig ar asesiad o incwm a chyfalaf gwario ymgeisydd a'i bartner, gan fod yr ymgeisydd a'i bartner yn cael budd ariannol neu fel arall o ddefnyddio llys neu driwlynlys. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau ni fyddai'n briodol i ymgeisydd gael ei asesu fel un o gwpl. Cynigir y byddai ymgeisydd yn cael ei asesu fel person sengl os oes gan ei bartner fudd croes yn yr achos y mae'r ymgeisydd yn gwneud cais am ddileu'r ffi ar ei gyfer. Mewn achosion o'r fath ni fyddai incwm partner ac/neu asedau cyfalaf gwario sy'n cael eu dal ar y cyd yn cael eu hystyried. Gallai budd croes, er enghraifft, olygu bod y partner yn cael ei enwi fel y gwrthwynebwr yn yr achos. Gall materion a allai gael eu hystyried fel achosion â budd croes gynnwys ceisiadau am ddileu'r ffi ar gyfer:

- ysgariad, diddymiad neu ddirymiad;
- ceisiadau cydnabod rhyw;
- trais domestig; neu
- briodasau dan orfod.

36. Nid yw'r rhestr hon yn nodi'r holl amgylchiadau; gall Rheolwr Llys neu Dribwlynlys ddefnyddio'i ddisgresiwn wrth gymhwyso'r mesur hwn.

Amgylchiadau eithriadol

37. Rydym yn cydnabod y gallai'r system arfaethedig, mewn amgylchiadau eithriadol, atal rhywun rhag cyflwyno achos pe bai ganddo incwm cymharol uchel ond dim arian ar gael i'w wario, neu oherwydd rhyw amgylchiad lleihaol arall. Byddai'r Arglwydd Ganghellor (ar gyfer llysoedd neu driwlynlysoedd) neu Brif Weithredwr y Goruchaf Lys, yn gallu lleihau neu ddileu ffi pe bai'n fodlon bod amgylchiadau eithriadol a fyddai'n cyfiawnhau gwneud hynny. Bydd y penderfyniadau hyn yn seiliedig yn ôl disgresiwn ar deilyngdod pob cais unigol, a byddant yn seiliedig ar ganllawiau sy'n gofyn i staff ystyried incwm, cyfalaf gwario, gwariant neu amgylchiadau lleihaol eraill yr ymgeisydd. Credwn y bydd y mesur hwn yn diogelu mynediad at gyfiawnder ar gyfer y rhai hynny nad oes ganddynt arian i'w wario i gyflwyno achos. Mae'r canllawiau dileu ffioedd presennol yn nodi bod gan Reolwyr Llys (yn hytrach na staff llys) y pŵer eithriadol hwn i ddileu ffioedd; tra mae Prif Weithredwr Goruchaf Lys y DU yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r Cofrestrydd. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu newid yr ymarfer hwn.

38. Ar hyn o bryd, mae gan Brif Weithredwr Goruchaf Lys y DU bŵer i leihau neu ddileu ffioedd mewn achosion lle mae 'cais am ganiatâd i ymyrryd mewn apêl yn cael ei wneud gan sefydliad elusenol neu ddielw sy'n ceisio gwneud cyflwyniadau er budd y cyhoedd'. Gan mai Goruchaf Lys y DU yw llys uchaf y DU, cred y Llywodraeth y dylid cadw'r eithriad hwn ac nid yw'n bwriadu newid y polisi hwn.

Cwestiwn 9

A ydych yn cytuno y dylai cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi fod yn seiliedig ar asesiad o fodd cartref?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 10

A ydych yn rhagweld amgylchiadau eraill lle gallai budd croes fod yn berthnasol? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Ceisiadau trydydd parti

39. O dan y system dileu ffioedd bresennol sy'n cael ei defnyddio yn y mwyafrif o lysoedd, ni chaniateir i drydydd partïon wneud cais am ddileu'r ffi ar ran unigolyn gan ddefnyddio ei fanylion ei hun. Mae'r unig eithriad i'r rheol hon yn ymwneud â rhywun sy'n cynrychioli neu'n gweithredu ar ran plentyn neu rywun sydd heb alluedd meddyliol ('P'). Fel nawr, byddai unrhyw un sy'n cynrychioli neu'n gweithredu ar ran plentyn neu 'P' fel Cyfaill Cyfreitha, Rhiant neu Warcheidwad, yn gallu gwneud cais am ddileu'r ffi gan ddefnyddio ei fanylion ei hun. Fodd bynnag, yn y Llys Gwarchod, pan fo achos yn ymwneud ag iechyd a lles 'P' (yn hytrach nag eiddo neu faterion ariannol) bydd 'P' yn cael ei drin fel yr ymgeisydd. Golyga hyn bod y sawl sy'n gwneud cais am gael dileu'r ffi yn cael ei asesu ar sail incwm a chyfalaf gwario 'P' yn hytrach na'r ymgeisydd trydydd parti. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu newid yr ymarfer hwn.

Cwestiwn 11

A ydych yn cytuno y dylai'r broses bresennol ar gyfer ceisiadau trydydd parti gael ei defnyddio ym mhob llys a thribiwnlys yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn, ac y dylai'r ymarfer presennol yn y Llys Gwarchod barhau?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

3. Cwmpas y system dileu ffioedd

1. Ar hyn o bryd gall y llys ddileu pob un o'r ffioedd a nodir yng Ngorchmynion Ffioedd yr Offerynnau Statudol oni bai fod y ffi ar gyfer ffioedd sy'n daladwy ar orchymyn atafaelu enillion cyfunol.
2. Mae'r Llywodraeth yn cwestiynu cyfanrwydd y system dileu ffioedd, ac mae o'r farn mai'r unig ffioedd y dylai'r llys allu eu dileu yw ffioedd sy'n daladwy ar gyfer swyddogaethau barnwrol sy'n darparu mynediad at gyfiawnder. Cynigir felly bod y ffioedd a ganlyn yn cael eu tynnu o gwmpas y system dileu ffioedd:
 - Ffioedd dogfennau copi; a
 - Ffioedd chwilio.
3. Mae ffi dogfen gopi'n daladwy gan unigolyn sy'n dymuno cael copi ychwanegol o ddogfen a gedwir gan lys neu dribiwnlys. Yn y mwyafrif o achosion mae'r unigolyn sy'n gofyn am gopi yn un o'r partiön yn yr achos a byddai copi o'r ddogfen wedi cael ei hanfon ato gan y parti arall neu gan y llys neu'r tribiwnlys. Bernir felly os bydd unigolyn yn gofyn am gopi o ddogfen y bydd hwn mewn gwirionedd yn gopi ychwanegol. O ganlyniad, nid ydym yn credu bod y ffi sy'n daladwy yn ymwneud â swyddogaeth farnwrol, ac felly nid ydym yn credu y byddai peidio â chaniatáu dileu ffioedd o'r fath yn atal mynediad at gyfiawnder.
4. Mae ffi chwilio'n daladwy gan unigolyn sy'n dymuno cael gwybodaeth a gedwir gan lys neu dribiwnlys. Telir y mwyafrif o ffioedd chwilio ar gyfer ceisiadau i chwilio'r mynegai archddyfarniadau absoliwt neu orchmynion terfynol a gedwir yn ganolog ac ar gyfer gorchmynion cyfrifoldeb rhiant. Byddai copiâu o'r dogfennau hyn wedi cael eu darparu i'r partiön perthnasol ar yr adeg y cawsant eu gwneud. Yn ychwanegol at hyn, gwneir nifer o geisiadau chwilio gan unigolion nad oes a wnelont ag achos, er enghraifft i ymchwilio i hanes teulu. Nid ydym yn credu bod y ffioedd sy'n daladwy am chwiliadau'n ymwneud â swyddogaeth farnwrol, ac felly nid ydym yn credu y byddai peidio â chaniatáu dileu ffioedd o'r fath yn atal mynediad at gyfiawnder.
5. Mae Atodiad H yn cynnwys crynodeb manwl o'r ffioedd a godir ar hyn o bryd yn y categorïau hyn gan y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
6. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd cais am gopi'n cael ei ddychwelyd i'r llys heb ei ddanfôn (lle mae'n cael ei gofnodi ar ffeil), neu efallai na fydd cais yn cael ei anfon ar yr adeg y mae'n cael ei ddrafftio oherwydd na wyddys cyfeiriad y parti ar y pryd. Yn y naill achos a'r llall byddai'n annheg codi ffi copi. Fodd bynnag, credwn mai peidio â chodi ffi copi yn y lle cyntaf y dylid ei wneud yn yr achosion hyn, yn hytrach na chaniatáu dileu ffioedd.

Cwestiwn 12

A ydych yn cytuno y dylai darparu copïau o ddogfennau a chwiliadau fod wedi ei eithrio o'r system ddileu ffioedd?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 13

A ydych yn rhagweld amgylchiadau lle byddai codi ffi am gopi neu godi ffioedd chwilio'n cyfyngu ar fynediad at gyfiawnder?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Newid y terfyn amser ar gyfer gwneud ôl-gais am ddileu ffioedd o chwe mis i ddau fis

7. Ar hyn o bryd gall unigolion wneud cais am ad-daliad, a elwir yn ôl-gais am ddileu ffi, cyn pen chwe mis ar ôl talu ffi. Er mwyn gwneud hynny rhaid iddynt ddarparu'r dystiolaeth ddogfennol i brofi y byddent wedi bod yn gymwys i gael dileu'r ffi ar yr adeg y talwyd y ffi. Gall ôl-geisiadau am ddileu'r ffi sy'n cael eu gwneud rai misoedd yn ddiweddarach roi baich gweinyddol ychwanegol ar staff llys wrth iddynt geisio adalw ac adolygu ffeil llys nad yw o bosibl ar gael yn rhwydd bellach.
8. Rydym yn cynnig lleihau'r cyfnod ar gyfer gwneud ôl-gais am ddileu'r ffi i ddau fis. Credwn fod dau fis yn ddigon o amser i gael y dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen i gefnogi ôl-gais am ddileu'r ffi. Fel nawr, byddai'r Arglwydd Ganghellor (mewn llysoedd a thribiwnlysoedd) neu Brif Weithredwr Goruchaf Lys y DU yn gallu ymestyn y cyfnod pe baent 'o'r farn fod rheswm da dros wneud cais ar ôl diwedd y cyfnod o ddau fis.'

Cwestiwn 14

A ydych yn cytuno y dylid lleihau'r terfyn amser ar gyfer gwneud ôl-gais am ddileu'r ffi i ddau fis?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Dileu ffioedd ar gyfer hawliadau gan fwy nag un parti

9. Mae hawliadau gan fwy nag un parti yn gymharol anghyffredin yn y rhan fwyaf o lysoedd a thribiwnlysoedd ar wahân i'r tribiwnlys cyflogaeth. Rydym yn cynnig cadw'r darpariaethau sy'n berthnasol ar hyn o bryd yn y llysoedd sifil ar gyfer ceisiadau lluosog y tu allan i'r tribiwnlys cyflogaeth, lle mae'r ffi'n aros yr un fath faint bynnag o bartïon sy'n gysylltiedig â'r cais, â mân addasiadau ar gyfer tribiwnlysoedd cyflogaeth, lle bydd y ffi'n cynyddu gan ddibynnu ar nifer y partiön sy'n dwyn hawliad.
10. Lle mae dau neu ragor o hawlwr neu ddiffynyddion yn ymwneud â'r un achos, byddant yn gyfrifol ar y cyd am unrhyw ffioedd y mae angen eu talu yn ystod yr achos. Gall pob hawlwr neu ddiffynydd wneud cais am ddileu ffi. Os caniateir dilead i un neu fwy o hawlwr neu ddiffynyddion, bydd yr hawlwr neu ddiffynyddion eraill (os oes mwy) yn gyfrifol am y ffi wedyn. Os bydd ffi dau neu ragor o hawlwr neu ddiffynyddion

11. Yn y tribiwnlys cyflogaeth, gan fod y ffioedd yn cynyddu yn ôl nifer y partiön a bod y partiön i gyd yn atebol ar y cyd am y ffi, mae'r Llywodraeth hefyd wedi penderfynu cyflwyno mesur diogelu fel na fyddai'n ofynnol i unrhyw unigolyn mewn hawliad â nifer o bartiön dalu mwy na'r ffi un parti mewn amgylchiadau lle mae eraill yn yr hawliad lluosog wedi cael dileu eu ffioedd.
12. Ar hyn o bryd, mae gan y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau ddarpariaethau ar gyfer hawliadau gan fwy nag un parti. Dan y darpariaethau hyn, os rhoddir caniatâd i ddileu ffi un neu fwy o hawlwr yn y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau, bydd yr hawlwr eraill (os oes rhai) yn gyfrifol am gyfran ddyranedig o'r ffi yn unig (e.e. 50% o'r ffi mewn hawliad lle ceir dau unigolyn). Dan ein darpariaethau ni, byddai'r hawlwr/hawlwr eraill yn gyfrifol am y ffi llawn wedyn.

Cwestiwn 15

Hoffem wybod a ydych yn credu bod unrhyw ffactorau eraill y mae angen i ni eu hystyried yn achos hawlwr sy'n gwneud cais am ddileu ffioedd mewn hawliadau lluosog.

Cwestiwn 16

Yn gyffredinol, a ydych yn cytuno bod hyn yn darparu strwythur teg, tryloyw ac ymarferol ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â dileu ffioedd yn GLITEM a Goruchaf Lys y DU? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

4. Aseiad Effaith

1. Rydym wedi ystyried a nodi ein hasesiad o effaith ein cynigion yn yr aseiad effaith cychwynnol sydd ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/>.

5. Dadansoddiad Cydraddoldeb

1. Rydym wedi cynnwys ein hasesiad o effeithiau'r cynigion ar gydraddoldeb yn y crynodeb o'r effaith ar gydraddoldeb (wedi'i atodi yn yr Asesiad Effaith, sydd ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/>).
2. O'r holl rai y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, ni fydd 57% yn gweld unrhyw effeithiau o ran cost na chymhwyster yng nghyd-destun dileu'r ffi. Bydd 13% arall yn gweld effaith gadarnhaol, tra bydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar 30%. Dengys ein gwaith modelu y gallai rhai effeithiau gwahaniaethol fod yn gysylltiedig â nodwedd warchoddedig oedran, lle gallai'r rhai hynny mewn grwpiau oedran hŷn weld mwy o leihad mewn cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi a chynnydd mewn tâl tuag at ffi o'i gymharu â'r rhai hynny sydd mewn grwpiau oedran iau, oherwydd ei bod yn fwy tebygol fod cyfalaf gwario ar gael ganddynt. Efallai y bydd mân wahaniaethau o ran effeithiau yng nghyd-destun hil, gyda'r rhai hynny o grŵp ethnig Gwyn o bosibl yn fwy tebygol o weld effaith negyddol na'r rhai hynny o grŵp ethnig Du, Asiaidd a Lleiafrifol. Rydym wedi modelu'r effeithiau ar anabledd ac ar ryw, a chredwn mai bach iawn yw'r rhain.
3. Nid ydym yn credu y bydd effaith y cynigion hyn yn achosi anfantais benodol na sylweddol. Credwn y bydd y system dileu ffioedd sy'n cael ei chynnig yn sicrhau bod pobl sy'n methu â fforddio talu ffi yn dal i allu cael mynediad at gyfiawnder.
4. Yn ychwanegol at hyn byddai pŵer eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i leihau neu ddileu ffioedd (neu'r Prif Weithredwr yn achos y Goruchaf Lys), ar gael i leihau neu ddileu ffi lle bônt yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau gwneud hynny e.e. lle bo unigolyn wedi dioddef digwyddiad annisgwyl sy'n effeithio ar ei allu i dalu ffi.
5. Felly, rydym o'r farn fod y cynigion ac unrhyw effeithiau sy'n deillio ohonynt yn dal yn ddull cymesur o gyflawni nod teg – sicrhau y dylai'r rhai hynny sy'n gallu fforddio cyfrannu at gost eu ffi wneud hynny, ond na ddylai'r rhai hynny na allant dalu'r ffi gael eu hatal rhag defnyddio'r llys neu'r tribiwnlys oherwydd hynny.
6. Rydym yn cydnabod bod y data rydym wedi seilio ein crynodeb o'r effaith ar gydraddoldeb arno yn brin. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun effeithiau ar y gymuned drawsrywiol²⁴ lle nad oes gennym ddigon o ddata i amcangyfrif effeithiau ariannol ein cynigion. O ystyried y cyfyngiadau hyn, rydym yn defnyddio'r ymgynghoriad hwn i wella'n dealltwriaeth o effeithiau ar gydraddoldeb. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

²⁴ Mae cyfran ohonynt yn debygol o ddefnyddio'r Panel Cydnabod Rhyw.

Cwestiwn 17

A ydych yn meddwl bod y system dileu ffioedd arfaethedig yn debygol o gael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu anffafriol ar gydraddoldeb?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 18

Os ydych yn meddwl bod y cynnig yn debygol o gael unrhyw effeithiau anffafriol ar gydraddoldeb, sut y gellid lleihau'r effeithiau hyn?

Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 19

A ydych yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth arall a allai fod o gymorth i'n dadansoddiad o effeithiau posibl ar gydraddoldeb? Os ydych, rhowch y dystiolaeth hon i ni os gwelwch yn dda.

Atodiad A: Y system dileu ffioedd bresennol yn y llysoedd sifil

1. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn darparu system dileu ffioedd ar gyfer defnyddwyr llysoedd sifil a llysoedd teulu Cymru a Lloegr. Mae'r posibilrwydd o ddileu ffi (hepgor) ar gael i unrhyw un a fyddai'n cael anhawster i dalu ffi llys a bodloni'r meini prawf priodol. Gallai unigolyn fod yn gymwys i gael dileu'r ffi yn llawn, lle nad oes unrhyw ffi'n daladwy, neu ddileu'r ffi yn rhannol, lle mae angen cyfraniad tuag at y ffi. Rhaid i unrhyw un sy'n gofyn am gael peidio â thalu ffi yn llawn neu yn rhannol, wneud cais i wneud hynny ar yr adeg y gwneir y cais neu ar unrhyw adeg pan fo ffi'n ddyledus a darparu prawf dogfennol o'i gymhwyster ariannol. Mae tri math o ddileu ffi.
2. **Dileu Ffi 1** – ar hyn o bryd yn dileu'r ffi yn llawn (h.y. nid oes ffi yn daladwy) os yw'r ymgeisydd yn cael un o'r budd-daliadau penodedig isod:
 - Cymhorthdal Incwm;
 - Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm;
 - Credyd gwarant Credyd Pensiwn;
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm; neu
 - Credyd Treth Gwaith **ond heb fod yn cael** Credyd Treth Plant **hefyd**.
3. **Dileu Ffi 2** – ar hyn o bryd yn dileu'r ffi yn llawn (h.y. nid oes ffi yn daladwy) os cyfrifir nad yw incwm blynyddol gros yr ymgeisydd (a'i bartner os ydynt yn gwpl), yn fwy na'r symiau a ddangosir yn y tabl isod:

Incwm blynyddol gros gyda:	Sengl	Cwpl
Dim plant ²⁵	£13,000	£18,000
1 plentyn	£15,930	£20,930
2 blentyn	£18,860	£23,860

Os oes gan y parti sy'n talu'r ffi fwy na 2 blentyn yna'r swm perthnasol o incwm blynyddol gros yw'r swm a nodir yn y tabl ar gyfer 2 blentyn ynghyd â'r swm o £2,930²⁶ ar gyfer pob plentyn ychwanegol.

4. **Dileu Ffi 3** – ar hyn o bryd yn dileu ffioedd yn llawn neu yn rhannol (h.y. naill ai dim ffi neu mae cyfraniad tuag at y ffi yn daladwy) ar sail prawf modd incwm a gwariant i gyfrifo incwm gwario misol yr unigolyn (a'i bartner os yw hynny'n berthnasol):
 - Dim ffi yn daladwy os yw'r incwm gwario misol yn £50 neu lai;

²⁵ Mae'r trothwyon incwm blynyddol gros yn deillio o dorbwynt incwm Credyd Treth Gwaith Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer gweithwyr, heb blant a heb elfen 30 awr Credyd Treth, lle mae'r cyfraddau ar hyn o bryd yn £13,022 ar gyfer person sengl ac £17,809 ar gyfer cwpl – mae'r rhain wedi eu talgrynnu i £13,000 a £18,000 yn y drefn honno.

²⁶ Mae'r swm ar gyfer pob plentyn dibynnol yn deillio o'r lwfans Cymhorthdal Incwm ar gyfer plant dibynnol yn 2009/10 (£56.11 yr wythnos), sydd wedi'i dalgrynnu i £2,930.

- Os yw'r incwm gwario misol yn fwy na £50 ond heb fod yn fwy na £210, swm sy'n hafal i chwarter pob £10 o incwm gwario misol y parti hyd at uchafswm o £50;
- Os yw'r incwm gwario misol yn fwy na £250, swm sy'n hafal i £50 ynghyd â hanner pob £10 dros £200 o incwm gwario misol y parti.
- Caniateir 3 lwfans penodedig a 4 lwfans heb ei gapio fel rhan o'r prawf modd ar gyfer y maen prawf hwn:

Costau Byw Cyffredinol	£315 y mis
Partner	£159 y mis
Plant Dibynnol	£244 ²⁹ y mis y plentyn
Costau cartref	Dim cap
Cynhaliaeth plant	Dim cap
Costau gofal plant	Dim cap
Taliadau dan orchymyn llys	Dim cap

5. Er enghraifft, lle cyfrifir bod incwm gwario misol unigolyn rhwng £50 a £59.99 bydd yn cyfrannu £12.50 bob tro y mae angen talu ffi; lle cyfrifir bod yr incwm gwario rhwng £340 a £349.99, bydd y cyfraniad yn £120. I gynorthwyo defnyddwyr lluniwyd tabl yn nodi'r cyfraniadau sy'n daladwy ac mae i'w weld ar y dudalen ddilynol:

²⁷ Mae'r swm ar gyfer costau byw cyffredinol yn seiliedig ar y bandiau 'Incwm Gwario Misol' a ddefnyddir gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i gyfrifo faint y byddai rhywun yn ei dalu tuag at ei achos wrth asesu Cymorth Cyfreithiol.

²⁸ Mae'r swm ar gyfer partner yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng y lwfans personol Cymhorthdal Incwm ar gyfer cwpl sydd ill dau'n 18 a throsodd (£100.95 yr wythnos) ac ymgeisydd sengl dros 25 (£64.30 yr wythnos) yn 2009/10, sydd wedi'i dalgrynnu i £159.

²⁹ Mae'r swm ar gyfer plant dibynnol yn deillio o'r lwfans personol Cymhorthdal Incwm ar gyfer plant dibynnol yn 2009/10 (£56.11 yr wythnos), sydd wedi'i dalgrynnu i £244.

Incwm Gwario Misol	Cyfraniad	Incwm Gwario Misol	Cyfraniad	Incwm Gwario Misol	Cyfraniad
£	£	£	£	£	£
50 – 59*	12.50	340 – 349	120.00	630 – 639	265.00
60 – 69	15.00	350 – 359	125.00	640 – 649	270.00
70 – 79	17.50	360 – 369	130.00	650 – 659	275.00
80 – 89	20.00	370 – 379	135.00	660 – 669	280.00
90 – 99	22.50	380 – 389	140.00	670 – 679	285.00
100 – 109	25.00	390 – 399	145.00	680 – 689	290.00
110 – 119	27.50	400 – 409	150.00	690 – 699	295.00
120 – 129	30.00	410 – 419	155.00	700 – 709	300.00
130 – 139	32.50	420 – 429	160.00	710 – 719	305.00
140 – 149	35.00	430 – 439	165.00	720 – 729	310.00
150 – 159	37.50	440 – 449	170.00	730 – 739	315.00
160 – 169	40.00	450 – 459	175.00	740 – 749	320.00
170 – 179	42.50	460 – 469	180.00	750 – 759	325.00
180 – 189	45.00	470 – 479	185.00	760 – 769	330.00
190 – 199	47.50	480 – 489	190.00	770 – 779	335.00
200 – 209	50.00	490 – 499	195.00	780 – 789	340.00
210 – 219	55.00	500 – 509	200.00	790 – 799	345.00
220 – 229	60.00	510 – 519	205.00	800 – 809	350.00
230 – 239	65.00	520 – 529	210.00	810 – 819	355.00
240 – 249	70.00	530 – 539	215.00	820 – 829	360.00
250 – 259	75.00	540 – 549	220.00	830 – 839	365.00
260 – 269	80.00	550 – 559	225.00	840 – 849	370.00
270 – 279	85.00	560 – 569	230.00	850 – 859	375.00
280 – 289	90.00	570 – 579	235.00	860 – 869	380.00
290 – 299	95.00	580 – 589	240.00	870 – 879	385.00
300 – 309	100.00	590 – 599	245.00	880 – 889	390.00
310 – 319	105.00	600 – 609	250.00	890 – 899	395.00
320 – 329	110.00	610 – 619	255.00	900 – 909	400.00
330 – 339	115.00	620 – 629	260.00	910 – 919**	405.00

* mae pob ystod yn gorffen â .99c

** bydd y cyfraniad yn cynyddu £5 am bob £10 ychwanegol dros £919

6. Agweddau eraill ar system dileu ffioedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yw:

- Dim ond i unigolion y mae'r system dileu ffioedd ar gael; nid yw'n berthnasol i gwmnïau, partneriaethau nac elusennau.
- Gellir caniatáu dileu ffioedd heb brawf o dystiolaeth mewn sefyllfaoedd brys lle rhoddir ymrwymiad naill ai i ddarparu prawf o gymhwyster i gael ffi wedi'i dileu neu i dalu'r ffi lawn cyn pen 5 diwrnod gwaith.
- Gall unigolion wneud cais am ad-daliad (a elwir yn ôl-gais i ddileu'r ffi) os ydynt wedi talu ffi llys o fewn 6 mis ac os oes ganddynt dystiolaeth i brofi y byddent wedi bod yn gymwys i gael ffi wedi'i dileu ar yr adeg y talasant y ffi.
- Mae proses apêl wedi'i diffinio'n glir ar gael i unigolion y gwrthodwyd dileu eu ffi ond sy'n credu eu bod yn gymwys.

- Ni all y rhai hynny y bernir gan lys eu bod yn ymgyfreithwyr blinderus, neu wedi eu rhwymo gan orchymyn atal sifil, wneud cais i gael dileu'r ffi nes bydd caniatâd i gyflwyno wedi'i roi (mae ffi yn daladwy am hynny). Os bydd y cais am ganiatâd yn llwyddiannus, gall yr unigolyn wneud cais am ad-daliad (ôl-gais am ddileu'r ffi), cyn pen 6 mis o'r dyddiad talu.
7. Yn ychwanegol at hyn, mae pŵer dewisol i'r Arglwydd Ganghellor allu lleihau neu ddileu ffi lle bydd yr unigolyn, oherwydd amgylchiadau eithriadol achos penodol, yn dioddef caledi ariannol gormodol.
 8. Mae manylion llawn am y system dileu ffioedd, y ffurflenni cais a'r dystiolaeth sydd ei hangen i'w gweld yn y daflen (EX160A) Ffioedd llys – Oes rhaid i mi eu talu?³⁰

³⁰ Ffioedd llys - Oes rhaid i mi eu talu?
http://www.hmcourtsservice.gov.uk/courtfinder/forms/ex160a_web_1010.pdf

Atodiad B: Cymharu darpariaethau dileu ffioedd yn ôl maes busnes

Dileu Ffi 1 – Prawf Budd-daliadau Gwladol Cymhwysol ('Budd-daliadau wedi'u hawdurdodi')

Awdurdodaeth	Cymhorthdal Incwm	Lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm	Credyd Gwarant Credyd Pensiwn	Budd-dal Tai	Budd-dal Treth Gyngor	Credyd Treth Gwaith
<ul style="list-style-type: none"> Llysoedd Sifil; Llysoedd Teulu; Llysoedd ynadon; Profiant Diwrthwynebiad; Goruchaf Lys y DU; ac Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd).¹ 	✓	✓	✓	✓			✓ar yr amod <u>na</u> dderbynnir Credyd Treth Plant hefyd
<ul style="list-style-type: none"> Panel Cydnabod Rhyw 	✓	✓		✓			✓ar yr amod bod Credydau Treth Plant, neu elfen anabledd neu anabledd difrifol yn cael ei derbyn hefyd a bod yr Incwm blynyddol gros yn cael ei ystyried yn £18,948 neu lai
<ul style="list-style-type: none"> Apeliadau Gamblo 	✓	✓	✓	✓			✓ar yr amod bod Credydau Treth Plant, neu elfen anabledd neu anabledd difrifol yn cael ei derbyn hefyd a bod yr Incwm blynyddol gros yn cael ei ystyried yn £17,474 neu lai
<ul style="list-style-type: none"> Tribiwnlys Eiddo Preswyl² 	✓	✓		✓	✓		✓ar yr amod bod Credydau Treth Plant, neu elfen anabledd neu anabledd difrifol yn cael ei derbyn hefyd a bod yr Incwm blynyddol gros yn cael ei ystyried yn £16,190 neu lai
<ul style="list-style-type: none"> Tribiwnlys Prasio Lesddaliadau³ 	✓	✓		✓	✓		✓ar yr amod bod Credydau Treth Plant, neu elfen anabledd neu anabledd difrifol yn cael ei derbyn hefyd a bod yr Incwm blynyddol gros yn cael ei ystyried yn £14,213 neu lai
<ul style="list-style-type: none"> Y Llys Gwarchod⁴ 	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓ar yr amod bod Credyd Treth Plant, neu elfen anabledd neu anabledd difrifol yn cael ei dderbyn hefyd

¹ Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cyflwyno'r system dileu ffioedd sy'n cael ei defnyddio gan y llysoedd sifil a'r gwasanaeth profiant yn y tribiwnlys cyflogaeth a'r tribiwnlys apêl cyflogaeth.

² O 1 Gorffennaf 2013 ymlaen ffurfi Siambr Eiddo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf gan uno'r Tribiwnlys Prasio Lesddaliadau, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl (sydd ill dau'n codi ffioedd), y Tribiwnlys Tir Amaethyddol a Thribiwnlys y Dyfarnwr i Gofrestrfa Tir EM (nad yw'n codi ffioedd ar hyn o bryd).

³ Mae'r Tribiwnlys Prasio Lesddaliadau hefyd yn eithrio'r rhai hynny sy'n derbyn tystysgrif a roddir dan y Cod Ariannu ac achosion sydd wedi cael eu trosglwyddo o lys sirol ar gyfer penderfyniad.

⁴ Nid yw'r unigolyn yn gymwys i gael dileu ei ffi os yw'n derbyn iawndal, neu os dyfarnwyd iddo iawndal o fwy nag £16,000, ar gyfer achosion yn y Llys Gwarchod.

Dileu Ffi 2 – Profion Incwm Blynyddol Gros

Awdurdodaeth	Trothwy Incwm Blynyddol Gros
<ul style="list-style-type: none"> • Llysoedd Sifil; • Llysoedd Teulu; • Llysoedd ynadon; • Profiant Diwrthwynebiad; • Goruchaf Lys y DU; ac • Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) 	<p>Dileu'r ffi yn llawn (dileu 100%), os nad yw Incwm Blynyddol Gros yr unigolyn yn fwy na:</p> <p>£13,000 (Person Sengl)</p> <p>£18,000 (Cwpl)</p> <p>Ar gyfer pob plentyn dibynnol mae'r terfynau incwm blynyddol hyn yn cynyddu £2,930.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Panel Cydnabod Rhyw 	<p>Dileu'r ffi yn llawn (dileu 100%), os nad yw incwm perthnasol yr unigolyn yn fwy na £18,948, neu ddileu'r ffi yn rhannol os yw incwm perthnasol yr unigolyn yn fwy na £18,948 ond yn hafal i neu yn llai na £28,415 (byddai'n ofynnol i'r unigolyn dalu £30).</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Apeliadau Gamblo 	<p>Dim Manylion yn yr Offeryn Statudol</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Tribiwnlys Eiddo Preswyl 	<p>Amherthnasol</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau 	<p>Amherthnasol</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Y Llys Gwarchod 	<p>Dileu'r ffi yn llawn (100%), os nad yw Incwm Blynyddol Gros yr unigolyn yn fwy na £12,000; a</p> <p>Dileu'r ffi yn rhannol, os yw Incwm Blynyddol Gros yr unigolyn rhwng:</p> <ul style="list-style-type: none"> • £12,001 a £13,500 (dileu 75% o'r ffi) • £13,001 a £15,500 (dileu 50% o'r ffi) • £15,001 a £16,500 (dileu 25% o'r ffi)

Dileu Ffi 3 – Prawf Incwm Gwario

Awdurdodaeth	Trothwy Incwm Blynnyddol Gros
<ul style="list-style-type: none"> • Llysoedd Sifil; • Llysoedd Teulu; • Llysoedd ynadon; • Profiant Diwrthwynebiad; • Goruchaf Lys y DU; ac • Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) 	<p>Prawf yn seiliedig ar incwm misol net a gwariant:</p> <p>Incwm Misol Net llai gwariant a ganiateir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • costau tai, • costau cynhaliaeth plant a gofal, • taliadau dan orchymyn llys <p>Lwfansau Sefydlog:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Partner: £159 • Plant: £244 ar gyfer pob plentyn dibynnol • Cyffredinol: £315 (dim ond os hawlir costau tai) <p>Mae cyfraniad yn daladwy ar sail swm yr incwm gwario</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Panel Cydnabod Rhyw 	Amherthnasol
<ul style="list-style-type: none"> • Apeliadau Gamblo 	Dim Manylion yn yr Offeryn Statudol
<ul style="list-style-type: none"> • Tribiwnlys Eiddo Preswyl 	Amherthnasol
<ul style="list-style-type: none"> • Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau 	Amherthnasol
<ul style="list-style-type: none"> • Y Llys Gwarchod 	Amherthnasol

Atodiad C: Ystadegau cryno – dileu ffioedd yn ôl maes busnes, 2011/12

Awdurdodaeth	Dileu Ffi 1		Dileu Ffi 2		Dileu Ffi 3		CYFANSWM		
	Achosion	Swm £'000	Achosion	Swm £'000	Achosion	Swm £'000	Achosion	Swm £'000	% o'r holl achosion dileu ffioedd
Llys Teulu	59,650	10,741	29,036	3,723	5,658	1,042	94,344	15,507	55.3
Llys Sirol	37,536	3,579	6,239	713	1,382	191	45,157	4,484	26.5
Ansolfedd	11,834	1,193	4,971	508	443	65	17,248	1,765	10.1
Y Llys Gwarchod	6,386	2,532	523	120	0	0	6,909	2,652	4
Yr Uchel Lys	2,278	690	2,035	387	316	75	4,629	1,152	2.7
Llys Ynadon	1,612	172	153	26	45	6	1,810	203	1.1
Panel cydnabod rhyw ¹	60	8	184	25	0	0	244	33	0.1
Profiant	180	18	43	4	15	2	238	25	0.1
Tribiwnlys Eiddo Preswyl a Thribiwnlys Prasio Lesddaliadau ²	60	5	0	0	0	0	60	5	< 0.1
Uwch Dribiwnlys (Siambro Tiroedd)	15	7	5	2	0	0	20	9	< 0.1
Apeliadau Gamblo	1	1	0	0	0	0	1	1	< 0.1
CYFANSWM	119,612	18,946	43,189	5,508	7,859	1,381	170,660	25,836	100%
<i>Cyfran o'r cyfanswm</i>	<i>70.1%</i>	<i>73.3%</i>	<i>25.3%</i>	<i>21.3%</i>	<i>4.6%</i>	<i>5.3%</i>			

¹ Nid yw'r panel fel arfer yn cadw ystadegau yn ymwneud â nifer y bobl sy'n gymwys ar gyfer dileu ffi drwy gyfeirio at fudd-dal cymhwysol. Amcangyfrifir bod 29.5% o'r cyfanswm o 170 o ffioedd a gafodd eu dileu yn llawn yn 2011/12 drwy dderbyn budd-dal cymhwysol.

² Nid yw'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl na'r Tribiwnlys Prasio Lesddaliadau fel arfer yn cadw ystadegau yn ymwneud â nifer y bobl sy'n gymwys ar gyfer dileu ffi. Amcangyfrifir bod tua 60 o ffioedd yn cael eu dileu bob blwyddyn, ac amcangyfrifir bod hynny'n cyfateb i £5,000 - £5,200 o incwm wedi'i golli bob blwyddyn.

³ Dechreuwyd codi ffi ar gyfer achosion sifil yng Ngoruchaf Lys y DU pan ffurfiwyd y Llys ym mis Hydref 2009. Nid yw Goruchaf Lys y DU fel arfer yn cadw ystadegau yn ymwneud â nifer y ceisiadau am fathau penodol o ddileu ffioedd, felly nid oes cyfeiriad penodol at y Llys yn y tabl.

Atodiad D: Y meini prawf cymhwyster ariannol arfaethedig

Prawf cyfalaf

1. Lle bo ymgeiswyr yn talu ffioedd sy'n llai na £1000, yr unig rai y gellir dileu eu ffioedd yw'r rhai hynny nad yw cyfalaf gwario eu cartref yn fwy na £3,000. Ar gyfer ffioedd sy'n werth rhwng £1001 a £4000, yr unig ymgeiswyr y gellir dileu eu ffioedd yw'r rhai hynny nad yw cyfalaf gwario eu cartref yn fwy nag £8,000. Mewn achosion anghyffredin lle gallai ffi fod yn fwy na £4000, byddem yn cynnig cynyddu'r trothwy cyfalaf i £16,000.

Prawf incwm

2. Mae'r prawf incwm yn pennu a fydd ffi ymgeisydd sydd wedi bodloni'r prawf cyfalaf gwario yn cael ei dileu yn llawn ynteu a fydd yr ymgeisydd yn talu cyfraniad tuag at ei ffi (dileu ffi yn rhannol). Caniateir hepgor ffi yn llawn os gall yr ymgeisydd ddangos bod ei incwm yn is na throthwy penodol neu os yw'n derbyn budd-dal cymhwysol sy'n dibynnu ar brawf modd.
3. Uwchben y trothwy hwn byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd dalu cyfraniad tuag at y ffi yn seiliedig ar gyfran o'i incwm uwchben y trothwy.

Yr elfen dileu ffi yn llawn

4. Bydd ymgeisydd yn gymwys i gael dileu ei ffi yn llawn os gall ddangos bod ei incwm misol gros yn is na'r trothwyon yn y tabl isod:

Tabl trothwyon incwm misol gros:

Incwm misol gros â:	Sengl	Cwpl
Dim plant	1085	1245
1 plentyn	1330	1490
2 blentyn	1575	1735
Ychwanegu £245 ar gyfer pob plentyn ychwanegol		

Os oes gan y parti sy'n talu'r ffi fwy na 2 blentyn yna'r swm perthnasol o incwm misol gros yw'r swm a nodir yn y tabl ar gyfer 2 blentyn ynghyd â £245 ar gyfer pob plentyn ychwanegol. Diffinnir ymgeisydd fel un sydd â phlentyn os oes plentyn yn byw gydag ef neu hi a /neu ei fod yn talu am gynhaliaeth plentyn.³¹

5. Bydd ymgeisydd hefyd yn gymwys i gael dileu ei ffi yn llawn os gall ddangos ei fod yn derbyn y budd-daliadau cymhwysol isod:
 - Cymhorthdal Incwm
 - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
 - Credyd Gwarant Credyd Pensiwn

³¹ Diffinnir plentyn fel unigolyn dan 16 oed. Bydd rhywun hefyd yn cael ei ddiffinio fel plentyn os yw rhwng 16 a 19 oed a: heb fod yn briod nac mewn Partneriaeth Sifil nac yn byw gyda phartner; ac yn byw gyda rhieni; ac mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu ar gynllun hyfforddiant di-dâl gan y llywodraeth.

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Cynhwysol ag enillion blynyddol o lai na £6,000.³²

Yr elfen dileu ffi yn rhannol

6. Fel arall, bydd yn ofynnol i'r parti dalu cyfraniad tuag at ei ffi. Mae uchafswm y ffi sy'n daladwy fel a ganlyn:
 - Os yw incwm misol gros yr ymgeisydd yn fwy na'r trothwy perthnasol yn y tabl trothwyon incwm misol gros o ddim mwy na £4000, swm sy'n hafal i £5.00 ar gyfer pob £10 dros y trothwy incwm.
 - Os yw incwm misol gros yr ymgeisydd yn fwy na'r trothwy perthnasol yn y tabl trothwyon incwm misol gros o fwy na £4000, ni fydd y parti'n gymwys i gael dileu'r ffi na dileu'r ffi yn rhannol.
7. I gynorthwyo defnyddwyr, crëwyd cyfrifydd cyfraniad sy'n dangos y cyfraniadau sy'n daladwy ac mae ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/>. Mae tabl yn nodi'r cyfraniad sy'n ofynnol mewn rhai mathau arferol o achos ar gael ar y dudalen ddilynol.

³² Nid ydym wedi penderfynu eto ar y lefel y byddem yn "awdurdodi" derbynwyr Credyd Cynhwysol, ond ar gyfer pwrpas enghreifftiol rydym wedi defnyddio'r trothwy 'Credyd Cynhwysol ag enillion blynyddol o lai na £6,000'. Lluniwyd y maen prawf enghreifftiol hwn i atgynhychu at ei gilydd y rhifau sy'n cael eu awdurdodi drwy'r buddion cymhwysol cyfredol dan amodau Credyd Cynhwysol.

Tabl cyfraniadau tuag at ffioedd arferol – Dileu Ffi yn Rhannol

Ymgeisydd:	Sengl			Sengl + 2 blentyn			Cwpl			Cwpl + 2 blentyn		
Incwm blynyddol gros o:	£15K	£25K	£35K	£20K	£25K	£35K	£20k	£30K	£40K	£25K	£30k	£40K
<u>Achosion teulu:</u>												
Ceisiadau am orchymyn peidio â molestu (mewn achosion o drais domestig) neu orchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod: £70												
Swm sy'n daladwy	70	70	70	45	70	70	Byddem bob amser yn ystyried ymgeisydd fel person sengl pe bai gan bartner fudd croes yn yr achos					
Ceisiadau dan Ddeddf Plant 1989, e.e. darpariaeth ariannol ar gyfer plant neu orchymyn Adran 8 (cyswllt, preswyllo, ac ati...): £200												
Swm sy'n daladwy	80	200	200	45	200	200	200	200	200	175	200	200
Gwneud cais am orchymyn priodas neu bartneriaeth sifil (e.e. ar gyfer ysgariad neu ddirymiad): £340:												
Swm sy'n daladwy	80	340	340	45	230	340	Byddem bob amser yn ystyried ymgeisydd fel person sengl pe bai gan bartner fudd croes yn yr achos					
<u>Achosion sifil:</u>												
Hawliad ariannol wedi'i wneud gan lys am £1000.01 - £1500: £80:												
Swm sy'n daladwy	80	80	80	45	80	80	80	80	80	80	80	80
<u>Tribiwnlys cyflogaeth:</u>												
Ffi gwrandawriad Tribiwnlys Cyflogaeth lefel 1: £230:												
Swm sy'n daladwy	80	230	230	45	230	230	210	230	230	175	230	230
Ffi gwrandawriad Tribiwnlys Cyflogaeth lefel 2: £950:												
Swm sy'n daladwy	80	495	915	45	255	670	210	625	950	175	380	795
<u>Tribiwnlysoedd eraill: Ffi gwneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhyw: £140:</u>												
Swm sy'n daladwy	80	140	140	45	140	140	Byddem bob amser yn ystyried ymgeisydd fel person sengl pe bai gan bartner fudd croes yn yr achos					

Atodiad E: Trin incwm a chyfalaf

Adnoddau partner

1. Wrth asesu cymhwyster ymgeisydd i gael dileu ffioedd yn llawn neu yn rhannol, bydd incwm a chyfalaf partner, os oes incwm a chyfalaf ganddo, yn cael ei gynnwys fel incwm a chyfalaf yr ymgeisydd – oni bai fod gan y partner fudd croes yn yr achos lle mae'r ymgeisydd yn gofyn am ddileu ffi (e.e. ysgariad, tystysgrif ailbennu rhywedd, priodas dan orfod neu drais domestig).
2. Mae "partner" yn golygu rhywun y mae'r ymgeisydd yn byw gydag ef neu hi fel cwpl. Mae hyn yn cynnwys rhywun y mae'r ymgeisydd yn byw gydag ef neu hi fel cwpl fel arfer ond nad yw'n byw gydag ef neu hi ar hyn o bryd oherwydd pwysau amgylchiadau (e.e. lle bo partner yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog).

CYFALAF

Diffiniad o gyfalaf

3. Mae "cyfalaf gwario" yn golygu, gwerth yr holl adnoddau o natur cyfalaf sy'n eiddo i'r ymgeisydd ar y dyddiad y gwneir y cais oni bai –
 - a. ei fod i'w drin fel incwm.
 - b. ei fod i'w ddiystyru.
4. Mae unrhyw symiau sy'n cael eu talu'n rheolaidd (e.e. taliadau dan flwydd-dal) i'w trin a'u datgan gan yr ymgeisydd fel incwm.
5. Mae ffynonellau cyfalaf gwario yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
 - a. Pob cyfalaf sy'n cael ei ddal ym mhob math o gyfrifon cynilo, ISAs, bondiau cyfradd sefydlog, bondiau neu gynilion buddsoddi sy'n gysylltiedig â'r farchnad, cronfeydd ymddiriedolaeth (lle bônt ar gael), neu unrhyw gronfa arall sydd ar gael i'r ymgeisydd;
 - b. Stociau neu gyfrannau;
 - c. Unrhyw fath o gynnyrch ariannol cyfalaf (megis ymddiriedolaethau unedol, OEIC/Cwmni Buddsoddi Penagored, neu ddeilliadau);
 - d. Taliadau cyfalaf dileu swydd a dderbyniwyd;
 - e. Ail gartrefi;
 - f. Unrhyw gyfalaf sy'n cael ei ddal ar y cyd (lle mae gan un neu ragor o'r partion fudd ariannol mewn ffynhonnell cyfalaf gwario);
 - g. Unrhyw fath o gyfalaf sy'n cael ei ddal y tu allan i'r DU.

Prisio cyfalaf

6. Lle nad yw'r cyfalaf gwario mewn arian parod, cyfrifir ei werth ar sail ei werth presennol ar y farchnad neu ei werth ildio, llai—

- a. costau a wynebwyd wrth werthu, 10%; a
 - b. swm unrhyw ddyledion a warantwyd arno.
e.e. mae gwerth presennol ail gartref ymgeisydd ar y farchnad yn £100K llai 10% ar gyfer costau gwerthu (£10K) a llai ei forgois (£70K) ac yn gadael gwerth cyfalaf o £20K i'w ystyried.
7. Mae gwerth marchnad cyfalaf gwario sy'n eiddo i'r ymgeisydd mewn gwlad y tu allan i'r DU fel a ganlyn:
 - a. os nad oes gwaharddiad yn y wlad honno yn atal trosglwyddo'r cyfalaf hwnnw i'r DU, gwerth y farchnad yn y wlad honno; neu
 - b. os oes gwaharddiad o'r fath, y swm a geid pe bai'n cael ei werthu yn y DU i brynwr bodlon.
 8. Lle bo cyfalaf gwario'n cael ei ddal mewn arian ar wahân i sterling, bydd yn cael ei gyfrifo ar ôl tynnu unrhyw dâl bancio neu gomisiwn sy'n daladwy wrth drosi'r cyfalaf hwnnw i sterling.
 9. Lle bo gan ymgeisydd ased cyfalaf gwario sy'n cael ei ddal ar y cyd (gydag un neu ragor o bobl eraill), bydd ymgeisydd yn cael ei drin fel un sydd â chyfran gyfartal o'r asedau hynny, os nad oes tystiolaeth i'r gwrthwyneb.
 10. Bydd cyfalaf sy'n cael ei ddal mewn busnes sy'n eiddo i'r gweithwyr yn cael ei ystyried oni bai fod y cwmni'n dal cyfrannau'r ymgeiswyr gyda'i gilydd (e.e. gan ymddiriedolaeth cyflogwr fel model John Lewis).

Cyfalaf i'w ddiystyru

11. Oni bai fod gan ymgeisydd unrhyw nifer neu werth eithriadol o'r eitemau dan sylw, ni fydd unrhyw un o'r canlynol yn cael ei ystyried fel cyfalaf gwario:
 - a. Dim ond un eiddo all gael ei ddiystyru:
 - i. Os yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio gan yr ymgeisydd fel ei gartref, neu os yw'r ymgeisydd yn bwriadu ei ddefnyddio fel ei gartref;
 - ii. Os yw'r eiddo'n cael ei ddal gan berthynas agos a bod gan y person hwnnw allu cyfyngedig i weithio neu ei fod wedi cyrraedd yr oed cymwys ar gyfer credyd pensiwn gwladol; neu
 - iii. Os yw'r eiddo'n cael ei ddal gan gyn bartner yr ymgeisydd sy'n byw ar wahân iddo oherwydd pwysau amgylchiadau (e.e. gofal hirdymor);
 - b. Eiddo personol (e.e. Dodrefn tŷ, dillad, car a cherbydau);
 - c. Offer a chyfarpar crefft;
 - d. Gwerth cyfalaf busnes y cleient yn achos rhywun hunangyflogedig;
 - e. Cyfalaf sy'n cael ei ddal mewn busnes sy'n eiddo i'r gweithwyr lle mae'r cwmni'n dal cyfrannau'r ymgeisydd ar y cyd (e.e. gan ymddiriedolaeth gweithwyr).
 - f. Bonws dychwelyd i'r gwaith Ceisiwr Gwaith;
 - g. Taliadau gofal cymunedol;
 - h. Cyfalaf sy'n cael ei ddal mewn cronfeydd ymddiriedolaeth na all y parti gael mynediad atynt;
 - i. Taliadau cyfalaf diswyddo annheg a dderbyniwyd;

- j. lawndal am anaf personol neu esgeuluster meddygol a dalwyd fel cyfandaliad;
- k. Cyfalaf sy'n cael ei ddal mewn cynlluniau pensiwn personol neu alwedigaethol;
- l. Cyfalaf (gwerth arian parod) contractau yswiriant;
- m. Unrhyw daliad a wnaethpwyd o'r Gronfa Byw'n Annibynnol (2006);
- n. Unrhyw dâl cyfalaf a wnaethpwyd o'r Taliad Profedigaeth; a
- o. Taliadau Benthyciadau Myfyrwyr

Amddifadu o gyfalaf

- 12. Os yw ymgeisydd wedi amddifadu ei hun o gyfalaf yn fwriadol er mwyn cael bod yn gymwys i gael dileu ffioedd neu ddileu ffioedd yn rhannol, bydd yr ymgeisydd yn cael ei drin fel un sy'n meddu ar gyfalaf wedi'i amddifadu.
- 13. Ni fydd ymgeisydd yn cael ei drin fel un sy'n amddifadu ei hun o gyfalaf gwario os yw'r parti'n gwneud i ffwrdd ag ef er mwyn—
 - a. lleihau neu dalu dyled sy'n ddyledus gan yr ymgeisydd; neu
 - b. prynu nwyddau neu wasanaethau angenrheidiol os oedd y gwariant yn rhesymol yn amgylchiadau achos y parti.

INCWM

Diffiniad o incwm

- 14. Mae "incwm misol gros" yn golygu cyfanswm yr incwm gros misol am y mis cyn y mis y gwneir y cais am ddileu ffi, o bob ffynhonnell ar wahân i dderbyn unrhyw rai o'r budd-daliadau eithriedig.
- 15. Bydd yr incwm o grefft, proffesiwn neu alwedigaeth ("enillion hunangyflogedig") yn cael eu cyfrifo o gyfran y person o'r elw net yn ystod cyfnod cyfrifyddu diwethaf y cyfryw grefft, proffesiwn neu alwedigaeth y paratowyd cyfrifon ar ei gyfer, neu dyniadau'r person dan sylw yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Budd-daliadau eithriedig

- 16. Mae "budd-daliadau eithriedig" yn golygu—
 - a. unrhyw rai o'r budd-daliadau a ganlyn sy'n daladwy dan Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol a Budd-daliadau 1992—
 - i. lwfans gweini a delir dan adran 64;
 - ii. lwfans anabledd difrifol;
 - iii. lwfans gofalwr;
 - iv. lwfans byw i'r anabl;
 - v. lwfans gweini cyson a delir dan adran 104 neu baragraff 4 neu 7(2) o Atodlen 8 fel cynnydd i bensiwn anabledd;
 - vi. unrhyw daliad a wneir o'r gronfa gymdeithasol;
 - vii. budd-dal tai;
 - viii. lwfans rhiant gweddw
 - b. unrhyw rai o'r budd-daliadau a ganlyn sy'n daladwy dan Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol a Budd-daliadau (Gogledd Iwerddon) 1992—
 - i. lwfans gweini a delir dan adran 64;

- ii. lwfans anabledd difrifol;
 - iii. lwfans gofalwr;
 - iv. lwfans byw i'r anabl;
 - v. lwfans gweini cyson a delir dan adran 104 neu baragraff 4(2) o Atodlen 8 fel cynnydd i bensiwn anabledd;
 - vi. unrhyw daliad a wneir o'r gronfa gymdeithasol;
 - vii. budd-dal tai;
 - viii. lwfans rhiant gweddw
- c. unrhyw rai o'r budd-daliadau a ganlyn sy'n daladwy dan Ddeddf Credydau Treth 2002 –
- i. unrhyw elfen plant anabl neu elfen plant ag anabledd difrifol o'r credyd treth plant
 - ii. unrhyw elfen gofal plant o'r credyd treth plant
- d. unrhyw dâl uniongyrchol a wneir dan Reoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Lloegr) 2003 neu Reoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004, neu adran 12B(1) Deddf Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) 1968,³³ neu Reoliadau Gwasanaethau Cymdeithasol Personol a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Gogledd Iwerddon) 2004
- e. bonws dychwelyd i'r gwaith sy'n daladwy dan adran [26] Deddf Ceiswyr Gwaith 1995 neu Erthygl 28 Gorchymyn Ceiswyr Gwaith (Gogledd Iwerddon) 1995;
- f. unrhyw lwfans anabledd difrifol eithriadol a delir dan y Cynllun Anafiadau Personol (Sifiliaid) 1983;
- g. unrhyw bensiwn a delir dan Orchymyn Pensiwn Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr ac ati (Anabledd a Marwolaeth) 2006;
- h. unrhyw daliad a wneir o'r Cronfeydd Byw'n Annibynnol;
- i. unrhyw daliad a wneir o'r Lwfans Profedigaeth;
- j. unrhyw gymorth ariannol a delir dan gytundeb ar gyfer gofalu am blentyn maeth;
- k. unrhyw elfen credyd tai o greddyd pensiwn;
- l. taliad annibyniaeth y lluoedd arfog; ac
- m. unrhyw rai o'r budd-daliadau a ganlyn sy'n daladwy dan Ddeddf Diwygio Lles 2012 –
- i. uchafswm unrhyw ychwanegiad plentyn anabl;
 - ii. uchafswm elfen costau tai;
 - iii. uchafswm elfen costau plant;
 - iv. cyllidebu a blaensymiau tymor byr;
 - v. taliad annibyniaeth bersonol.

³³ 1968 c. 49. Mewnosodwyd Adran 12B gan Ddeddf Gofal yn y Gymuned (Taliadau Uniongyrchol) 1996 c. 30 adran 4. Diwygiwyd isadran (1) gan Ddeddf Gofal ac Iechyd (Yr Alban) 2002 asp 5 adran 7 a Deddf Rheoliad Gofal (yr Alban) 2001 asp 8 adran 70.

Atodiad F: Tystiolaeth sy'n ofynnol

Bydd yn ofynnol i ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau ei incwm a'i adnoddau cyfalaf (ac incwm ac adnoddau cyfalaf ei bartner os yw hynny'n berthnasol). Mewn achosion lle canfyddir bod yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth anghywir, bydd yr ymgeisydd yn atebol am unrhyw ffioedd perthnasol sydd wedi cael eu dileu. Bydd peidio â thalu'n golygu y bydd yr achos yn cael ei ohirio neu ei ddileu, neu bydd unrhyw orchymyn a gafwyd yn cael ei ddirymu.

Eitem prawf modd	Math o dystiolaeth
Tystiolaeth o gyfalaf	ni fydd angen tystiolaeth o gyfalaf fel arfer; bydd datganiad o wirionedd ymgeisydd a'i lofnod ar y ffurflen gais yn ddigon o dystiolaeth fel rheol, ond gofynnir am dystiolaeth ddogfennol arall o gyfalaf gwario mewn achosion lle mae amheuaeth.
Tystiolaeth o incwm misol gros	<p>rhaid i ymgeiswyr roi tystiolaeth sy'n dangos bod eu hincwm yn is na throthwy penodol. Byddwn yn derbyn naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tystiolaeth ddogfennol o fudd-dal cymhwysol fel a roddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rhaid iddi ddangos teitl, enw llawn, cyfeiriad a chod post yr ymgeisydd a chadarnhau bod yr ymgeisydd wedi derbyn y budd-dal. Rhaid i'r dyddiad ar y dystiolaeth fod yn ystod y mis diwethaf, neu'r flwyddyn ariannol gyfredol ar gyfer credyd gwarant Credyd Pensiwn. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> • datganiadau banc am dri mis yn ogystal â'r dystiolaeth a nodir isod: <ul style="list-style-type: none"> i) Cyflogaeth: rhaid i ymgeiswyr ddarparu slipiau cyflog gwreiddiol o bob swydd. ii) Hunangyflogaeth: rhaid i ymgeiswyr ddarparu eu ffurflen dreth ddiweddaraf (Hunanasesiad), a naill ai eu Cyfrifiad Treth Hunanasesiad HMRC diweddaraf neu brawf arall o incwm presennol; iii) Ffynhonnell incwm arall: rhaid i ymgeiswyr ddarparu dogfennau eraill os nad yw'r ffynonellau incwm eraill wedi eu rhestru yn eu datganiadau banc.
Tystiolaeth o blant	os nad yw ymgeiswyr yn cael eu hawdurdodi rhaid iddynt ddarparu naill ai: <ul style="list-style-type: none"> a. datganiad banc cyfredol sy'n dangos tystiolaeth o dderbyn budd-dal plant; neu b. hysbysiad dyfarnu Credyd Cynhwysol sy'n dangos tystiolaeth o dderbyn Eifen Plant Credyd Cynhwysol; neu c. datganiad banc cyfredol neu gofnod ariannol arall sy'n dangos tystiolaeth o daliadau cynhaliaeth plant.

Eitem prawf modd	Math o dystiolaeth
Tystiolaeth o bartner	os nad yw ymgeiswyr yn cael eu hawdurdodi rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eu bod yn byw yn yr un cyfeiriad â'u partner. Yr unig dystiolaeth a ganiateir yw dogfen swyddogol (e.e. bil cyfleustodau cyfredol) sy'n dangos statws yr ymgeisydd, ei enw(au) llawn, ei deitl(au) a'i gyfeiriad.

Atodiad G: Ffioedd penodedig o 800 o bunnoedd neu fwy sy'n daladwy gan unigolion

Ffi	Awdurdodaeth	Gwasanaeth a Ddarperir
5% o'r gwerth trethadwy. Isafswm o £250. Uchafswm o £15,000	Uwch Dribiwnlys – Siambr Tiroedd	Gwrando apêl ardrethu.
2% o'r swm a ddyfarnwyd. Isafswm o £250 Uchafswm o £15,000	Uwch Dribiwnlys – Siambr Tiroedd	Gwrando atgyfeiriad neu apêl arall (ac eithrio un lle cyfrifir ffi'r gwrandawriad ar sail gwerth rhentu).
2% o'r rhent. Isafswm o £250 Uchafswm o £15,000	Uwch Dribiwnlys – Siambr Tiroedd	Gwrando atgyfeiriad neu apêl arall lle cyfrifir ffi'r gwrandawriad ar sail gwerth rhentu.
2.5% o'r swm a hawlir	Goruchaf Lys y DU	Wrth gyflwyno hawliad am gostau.
2.5% o'r swm a ganiateir	Goruchaf Lys y DU	Pan fydd y Cofrestrydd, dan reol 52 o Reolau'r Goruchaf Lys 2009, yn ardystio swm y costau a aseswyd, neu pan dderbynnir gorchymyn yn dangos y swm.
5% o swm costau	Uwch Dribiwnlys – Siambr Tiroedd	Ar gyfer penderfyniad gan y Tribiwnlys ynghŷn â swm costau.
£655 - £5,455	Llysoedd Sifil a Theulu	Pan wneir cais am asesiad manwl lle mae cyfanswm y costau a hawlir yn fwy na £15,000.
£4,820	Goruchaf Lys y DU	Pan gyflwynir datganiad o ffeithiau a materion perthnasol ac atodiad o ddogfennau hanfodol.
£685 - £1,670 ¹	Llysoedd Sifil	Pan gychwynnir achos hawliad ariannol lle bo'r swm a hawlir yn fwy na £50,000 (ac eithrio canolfannau cynhyrchu hawliadau a hawliadau ariannol ar- lein).
£1,600	Apeliadau Gamblo	Apelio yn erbyn penderfyniad am drwydded swyddfa reoli bersonol.
£1,600	Goruchaf Lys y DU	Wrth gyflwyno hysbysiad apêl.
£1,500	Goruchaf Lys y DU	Wrth gyflwyno cais am adolygiad o benderfyniad a wnaethpwyd gan y Cofrestrydd.
£1,500	Uwch Dribiwnlys – Siambr Tiroedd	Wrth gyflwyno cais hawliau goleuni (rhwystro mynediad at oleuni) ar gyfer tystysgrif dros dro a therfynol.
£1,200	Uwch Dribiwnlys – Siambr Tiroedd	Wrth gyflwyno cais hawliau goleuni (rhwystro mynediad at oleuni) ar gyfer tystysgrif derfynol.
£1,090	Llysoedd Sifil	Ffi gwrandawriad (amldrac).
£1,000	Goruchaf Lys y DU	Wrth gyflwyno cais am ganiatâd i apelio.

Ffi	Awdurdodaeth	Gwasanaeth a Ddarperir
£1000	Uwch Dribiwnlys – Siambr Tiroedd	Penderfynu ynglŷn â chais cyfamod cyfyngu – prif wrandawriad ar gais gwreiddiol.
£950 ²	Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth	Ffi gwrandawriad (lefel 2).
£800	Goruchaf Lys y DU	Wrth gyflwyno hysbysiad o fwriad i fynd ymlaen ag apêl.
£800	Goruchaf Lys y DU	Wrth gyflwyno cais am ganiatâd i ymyrryd mewn apêl.
£800	Apeliadau Gamblo	Apelio yn erbyn penderfyniad ar gyfer trwydded swyddogaethau gweithredol bersonol.
£800	Uwch Dribiwnlys – Siambr Tiroedd	Wrth gyflwyno cais cyfamod cyfyngu (rhyddhau neu addasu cyfamodau cyfyngu sy'n effeithio ar dir).
£545 ³	Llysoedd Sifil	Ffi gwrandawriad trac cyflym.
Ymgynghori ⁴	Y Llys Apêl	Ffi apêl.

¹ Ymgynghorwyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ynglŷn â chyflwyno bandiau ychwanegol i ffioedd cyflwyno achos ar gyfer hawliadau ariannol sy'n fwy na £300,000. Y ffi fwyaf yr ymgynghorwyd arni oedd £10,000 ar gyfer hawliadau sy'n fwy nag £1 biliwn.

² Disgwylir y bydd ffioedd yn cael eu cyflwyno yn y Tribiwnlys Cyflogaeth yn haf 2013.

³ Ymgynghorwyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ynglŷn â chyflwyno ffioedd gwrandawriadau yn gysylltiedig ag amser yn yr Uchel Lys a'r Llys Apêl. Y ffi fwyaf yr ymgynghorwyd arni oedd £10,900 ar gyfer treialon y disgwylid y byddent yn para am fwy na 10 diwrnod.

⁴ Ymgynghorwyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ynglŷn â chyflwyno ffi apêl o £1,090 yn y Llys Apêl.

Atodiad H: Ffioedd penodedig ar gyfer ceisiadau am gopïau a chwiliadau

Ffioedd am gopïau o gofnodion

Awdurdodaeth	Diffiniad o'r ffi	Swm
Achosion Sifil a Theulu a Llysoedd Ynadon	Ar gais am gopi o ddogfen: am ddeg tudalen neu lai ³⁴	£5
	am bob tudalen ar ôl hynny ³⁵	50c
	Ar gais am gopi o ddogfen ar ddisg gyfrifiadurol neu mewn ffurf electronig arall, ar gyfer pob copi o'r fath. ³⁶	£5
Achosion Profiant Diwrthwynebiad	Ar gais am gopi o ddogfen: am y copi cyntaf ³⁷	£6
	am bob tudalen ar ôl hynny ³⁸	£1
	Ar gais am gopi o ddogfen ar ddisg gyfrifiadurol neu mewn ffurf electronig arall, ar gyfer pob copi o'r fath. ³⁹	£4
Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd)	Am lungopi neu gopi ardystiedig o ddogfen, neu am archwilio copi plaen a'i farcio fel copi ardystiedig ⁴⁰	£1 (am bob tudalen, yn amodol ar gyfanswm lleiaf o £10)
	Am gyflenwi penderfyniadau cyhoeddiedig i danysgrifwyr ⁴¹	
Y Llys Gwarchod	Copi o ffi dogfen ⁴²	£5

³⁴ Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 4.1(a), Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 7.1(a), Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 5.1(a)

³⁵ Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 4.1 (b), Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 7.1(b), Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 5.1(b)

³⁶ Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 4.2, Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 7.2, Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 5.2

³⁷ Gorchymyn Ffioedd Profiant Diwrthwynebiad 2004, fel y'i diwygiwyd – Ffi 8(a).

³⁸ Gorchymyn Ffioedd Profiant Diwrthwynebiad 2004, fel y'i diwygiwyd – Ffi 8(b).

³⁹ Gorchymyn Ffioedd Profiant Diwrthwynebiad 2004, fel y'i diwygiwyd – Ffi 8(c).

⁴⁰ Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) 2009, fel y'i diwygiwyd – Ffi 13.

⁴¹ Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) 2009, fel y'i diwygiwyd – Ffi 14.

⁴² Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007, fel y'i diwygiwyd – Erthygl 7(1).

Ffioedd am chwilio cofnodion

Awdurdodaeth	Diffiniad o'r ffi	Swm
Achosion Sifil – yr Uchel Lys yn unig.	Am dystysgrif swyddogol o ganlyniad chwiliad am bob enw, mewn unrhyw gofrestr neu fynegai a gedwir gan y llys; neu yn Swyddfa Cronfeydd y Llys, ar gyfer tystysgrif swyddogol o ganlyniad chwiliad o ddaliannau heb eu hawlio am gyfnod penodedig o hyd at 50 mlynedd. ⁴³	£45
	Ar chwiliad personol o'r cofnodion methdaliad a chwmnïau, gan gynnwys archwiliad, am bob 15 munud neu ran o 15 munud. ⁴⁴	£7
Achosion Sifil	Ar chwiliad personol o'r cofnodion methdaliad a chwmnïau, mewn Llys Sirol. ⁴⁵	£45
Achosion Teulu – yr Uchel Lys a'r Llys Sirol	Ar chwiliad yn y mynegai dyfarniadau absoliwt neu orchmynion terfynol (am unrhyw gyfnod penodedig o ddeg blwyddyn galendr, neu'r deng mlynedd ddiweddaraf) a gedwir yn: Prif Gofrestrfa'r Adran Teulu ⁴⁶	£60
	Unrhyw Lys Sirol dynodedig neu Gofrestrfa Ddosbarth ⁴⁷	£40
	Ar chwiliad o fynegai canolog Cytundebau cyfrifoldeb rhiant a gedwir ym Mhrif Gofrestrfa'r Adran Teulu ⁴⁸	£40

⁴³ Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 10.2.

⁴⁴ Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 10.3.

⁴⁵ Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 3.13.

⁴⁶ Gorchymyn Ffioedd Achosion Teuluol 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 6.1.

⁴⁷ Gorchymyn Ffioedd Achosion Teuluol 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 6.2.

⁴⁸ Gorchymyn Ffioedd Achosion Teuluol 2008, fel y'i diwygiwyd – Ffi 6.3.

Atodiad I: Ffioedd Tribiwnlys Cyflogaeth

Hawliadau Unigol

Math o Ffi	Hawliadau Lefel 1	Hawliadau Lefel 2
Ffi cyflwyno	£160	£250
Ffi gwrandawriad	£230	£950

Hawliadau lluosog – lefel 1

Mae hawliadau Lefel 1 fel arfer ar gyfer symiau sy'n ddyledus pan derfynir cyflogaeth e.e. cyflogau heb eu talu, tâl yn lle rhybudd, taliadau dileu swydd

	Nifer yr hawlwr mewn hawliad lluosog		
	2-10 (2 x y ffi unigol)	11-200 (4 x y ffi unigol)	dros 200 (6 x y ffi unigol)
Ffi cyflwyno	£320	£640	£960
Ffi gwrandawriad	£460	£920	£1380
Cyfanswm	£780	£1560	£2340

Hawliadau lluosog –lefel 2

Mae hawliadau Lefel 2 yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â diswyddo annheg, cwynion ynglŷn â gwahaniaethu, hawliadau cyflog cyfartal a hawliadau yn deillio o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

	Nifer yr hawlwr mewn hawliad lluosog		
	2-10 (2 x y ffi unigol)	11-200 (4 x y ffi unigol)	dros 200 (6 x y ffi unigol)
Ffi cyflwyno	£500	£1000	£1500
Ffi gwrandawriad	£1900	£3800	£5700
Cyfanswm	£2400	£4800	£7200

Ffioedd eraill

	Adolygu Dyfarniad drwy Ddiffyg	Cais i wrthod yn dilyn setliad	Cyfryngu gan y farnwriaeth	Gwrth-hawliad	Cais am adolygiad
Lefel 1	£100	£60	-	£160	£100
Lefel 2	£100	£60	£600	-	£350

Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth – lefelau ffioedd arfaethedig

	Ffi apêl	Ffi gwrandawriad	Cyfanswm
Ffi Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth	£400	£1200	£1600

Atodiad J: Rhanddeiliaid yr anfonwyd y papur ymgynghori hwn atynt

Yr uwch farnwriaeth a Swyddfa Farnwrol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

a:gender

ACAS

Access to Justice Action Group

Action for Advocacy

Action on Elder Abuse

Advice Now

Advice UK

Age UK

Anabledd Dysgu Cymru

Association for Real Change (ARC UK)

Association of Contentious Trust and Probate Solicitors

Association of Muslim Lawyers

Association of Recruitment Consultancies

Bar Council of Northern Ireland

Basw

Belfast Butterfly Club

Belfast Pride

BILD (Sefydliad Anabledd Dysgu Prydeinig)

Black Solicitors Network

British Association for Adoption and Fostering

British Council of Disabled People

Canolfan Genedlaethol Byw'n Annibynnol

Canolfan Iechyd Meddwl

Canolfan Polisi ar Heneiddio

Cara-Friend

Care

Ceretas

CHANGE

Children's Commissioner for England

Children's Rights Alliance for England

Citizens Advice Northern Ireland

Citizens Advice Scotland

Cofrestrfa Dir

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Commercial Litigation Association (CLAN)

Cyddfederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth

Cyfreithwyr yr Henoed

Cymdeithas Aelodau Tribiwnlys Cyflogaeth

Cymdeithas Alzheimer

Cymdeithas Bancwyr Prydain (BBA)

Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Cymdeithas Cyfraith Teulu

Cymdeithas Cyfraith Teulu'r Bar

Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol (APIL)

Cymdeithas Cyfreithwyr Benywaidd Asiaidd (AAWL)

Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth

Cymdeithas Cyfreithwyr Iechyd Meddwl

Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil (CCUA)

Cymdeithas Down's Syndrome

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth

Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth

Cymdeithas Gofal Cartref Cenedlaethol

Cymdeithas Gofal Dwys

Cymdeithas Llywodraeth Leol

Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO).

Cymdeithas Rheolwyr Tai Ymddeol

Cymdeithas y Bar ar Gyflogaeth

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Cymdeithas y Plant

Cymdeithas yr Ynadon

Cymdeithas Yswirwyr Prydain

Cynghrair Gwasanaethau Cyngor

Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru

Cynghrair Niwrolegol

Cyngor Ar Bopeth

Cyngor Cenedlaethol Gofal Lliniarol (NCPC)
Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol
Cyngor Cyfiawnder Sifil
Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol
Cyngor Meddygol Cyffredinol
Cyngor Meddygol Prydeinig (BMA)
Cyngor y Bar
Cyngor Ymchwil Feddygol/ Cyngor Ymchwil DU
Cyngres yr Undebau Llafur
Dementia UK
Disability Awareness in Action (DAA)
Disability Rights UK
Discrimination Law Association
EEF - The Manufacturers' Organisation
Employment Judges Scotland
English Community Care Association
Equality & Human Rights Commission Scotland
Family Action
Family Law Society
Federation of Private Residents Associations
Ffederasiwn Busnesau Bach
Ffederasiwn Eiddo Prydain
Ffederasiwn y Canolfannau Cyfraith
Fforwm Cenedlaethol i Bobl ag Anableddau Dysgu
Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Fforwm Entrepreneuriaid
Fforwm y Cyflogwyr ar Anabledd
Finance and Leasing Association (FLA)
Free Representation Unit
Gay and Lesbian Youth Northern Ireland
Gender Identity Research and Education Society (GIRES)
Gender Matters
Gender Trust
Gendered Intelligence
General Council of the Bar (England and Wales)
General Council of the Bar of Northern Ireland

GMB

Gofalwyr DU

Grwp Defnyddwyr y Llys Gwarchod

Grŵp Gweithredu Cyfreithiol

Gwasanaeth Cyfraith Anabledd

Hafal

Help the Hospices

HERe (NI)

Hft (Home Farm Trust)

Housing Law Practitioners Association

Joint Industry Board for the Electrical Contracting Industry

Law Centre Northern Ireland

Leasehold Advisory Service

Leonard Cheshire Disability

Lesbian and Gay Lawyers Association

LGB&T Advocate

London Solicitors Litigation Association

Mencap

MIND

National Association for Voluntary & Community Action

National Family Mediation

National Federation of Property Professionals

National Federation of The Blind Of The United Kingdom

National LGB&T Partnership

NHS Confederation

NHS Litigation Authority (NHSLA)

Noah Fry Research Centre

Northern Ireland Court Service

Northern Ireland Gay Rights Association (NIGRA)

Northern Ireland Human Rights Commission

Northern Ireland Legal Services Commission

NSPCC

Nuffield Foundation

Oaklea Trust

Official Solicitor & Public Trustee

One Plus One

Parliamentary Forum on Gender Identity
Patient Concern
PCS
Press for Change
Pro Contact
Property Bar Association
Public Concern at Work
Queer Space
Refuge
Refugee Council
Relate
Rescare
Residential Landlords Association
Resolution
Respect
Respond
Rethink
Rhwydwaith Anabledd
Rhwywaith Cydraddoldeb
RICS
Sanctity
Scope
Scottish Association of Law Centres
Scottish Court Service
Scottish Employment Rights Network
Scottish Legal Action Group
Scottish Trade Union Congress
Scottish Transgender Alliance
Sefydliad Cenedlaeth Brenhiniol Pobl Ddall
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar
Sefydliad Cyfarwyddwyr Cyfreithiol
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
Sefydliad Hawliau Cyflogaeth
Sefydliad Hawliau Dynol Prydain
Sefydliad Iechyd Meddwl

Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)

Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD)

Sense

Shelter

Siambrau Masnach Prydain

Society of Trust and Estate Practitioners (STEP)

Standing Conference of Mediation Advocates

Stonewall

Support, Acceptance, Information and Learning (SAIL)

Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth

TAEN - The Age and Employment Network

Terrance Higgins Trust

The Association of Property and Fixed Charge Receivers (NARA)

The Association of Residential Managing Agents (ARMA)

The Beaumont Society

The British Psychological Society

The British Society of Rehabilitation Medicine

The Centre for Social Justice

The Charities Property Association

The Confederation of British Industry (CBI)

The Consortium of Lesbian, Gay, Bisexual and Transgendered Voluntary and Community Organisations

The Faculty of Advocates

The Independent Park Homes Advisory Service

The Law Society of Northern Ireland

The Law Society of Scotland

The Leasehold Knowledge Partnership (LKP)

The National Association of Almshouses

The National Association of Park Home Residents

The Oyster Forum

The Rainbow Project

The Sibyls

The Trans Forum

Trade Association Forum

Trans Media Watch

Translate

Turning Point

UK Home Care Association

UNISON

UNISON Scotland

Unite

United Response

Voice

Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Comisiwn Hawliadu Anabledd

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

Y Gymdeithas Strôc

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Y Samariaid

Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE)

Y Sefydliad Tai Siartredig

Youthnet

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sy'n codi o'r papur ymgynghori hwn.

Ymatebion ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno mai dim ond un system dileu ffioedd ddylai gael ei gweithredu yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n cael eu gweithredu gan GLITEM ac yng Ngoruchaf Lys y DU? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno y dylid ystyried cyfalaf gwario wrth benderfynu ynglŷn â chymhwyster i gael dileu'r ffi? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno â'r terfynau cyfalaf gwario arfaethedig? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno â thelerau arfaethedig y prawf cyfalaf gwario? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich atebion:

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer tystiolaeth ac â threfniadau gorfodi'r prawf cyfalaf? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno bod y cynigion hyn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran targedu cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi yn llawn ac yn rhannol drwy system syml ac ymarferol? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch pam, a pha ddewisiadau eraill rydych yn eu cynnig.

Cwestiwn 7 - A ydych yn cytuno y dylid cael cap incwm misol gros fel na fyddai'r rhai hynny sydd ag incwm penodol yn gymwys ar gyfer dileu ffi yn rhannol ac y byddent yn talu'r ffi'n llawn? Os felly, a ydych yn cytuno bod un cap o £4000 yn briodol ynteu a ddylai'r Llywodraeth ystyried amrywio'r cap ar gyfer gwahanol lefelau o ffi? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 8 - A ydych yn cytuno â'r gofynion arfaethedig am dystiolaeth ar gyfer y prawf incwm? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 9 – A ydych yn cytuno y dylai cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi fod yn seiliedig ar asesiad o fodd cartref? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 10 – A ydych yn rhagweld amgylchiadau eraill lle gallai budd croes fod yn berthnasol? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 11 – A ydych yn cytuno y dylai'r broses bresennol ar gyfer ceisiadau trydydd parti gael ei defnyddio ym mhob llys a thribiwnlys yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn, ac y dylai'r ymarfer presennol yn y Llys Gwarchod barhau? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 12 - A ydych yn cytuno y dylai darparu copïau o ddogfennau a chwiliadau fod wedi ei eithrio o'r system dileu ffioedd? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 13 – A ydych yn rhagweld amgylchiadau lle byddai codi ffi am gopi neu godi ffioedd chwilio'n cyfyngu ar fynediad at gyfiawnder? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 14 – A ydych yn cytuno y dylid lleihau'r terfyn amser ar gyfer gwneud ôl-gais am ddileu'r ffi i ddau fis? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 15 – Hoffem wybod a ydych yn credu bod unrhyw ffactorau eraill y mae angen i ni eu hystyried yn achos hawlwr sy'n gwneud cais am ddileu ffioedd mewn hawliadau lluosog.

Cwestiwn 16 – Yn gyffredinol, a ydych yn cytuno bod hyn yn darparu strwythur teg, tryloyw ac ymarferol ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â dileu ffioedd yn GLITEM a Goruchaf Lys y DU? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 17 – A ydych yn meddwl bod y system dileu ffioedd arfaethedig yn debygol o gael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu anffafriol ar gydraddoldeb? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 18 – Os ydych yn meddwl bod y cynnig yn debygol o gael unrhyw effeithiau anffafriol ar gydraddoldeb, sut y gellid lleihau'r effeithiau hyn? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

Cwestiwn 19 – A ydych yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth arall a allai fod o gymorth i'n dadansoddiad o effeithiau posibl ar gydraddoldeb? Os ydych, rhwch y dystiolaeth hon i ni os gwelwch yn dda.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun.

Enw llawn	
Teitl swydd neu bwy ydych yn eu cynrychioli wrth ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd, ac ati).	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn.	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod.	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 16/05/2013:

Ymatebion ar-lein: <https://consult.justice.gov.uk/>

Ymatebion e-bost: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk

Ymatebion drwy'r post:

Rachel Vickerstaff
Ministry of Justice
Justice Policy Group
Post point 4.32, 4th Floor
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 5389

E-bost: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Gellir cael copiâu papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/> neu <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice>.

Gellir gwneud cais i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall drwy gysylltu â: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk.

Cyhoeddi'r ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ymhen yn ystod haf 2013. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol, wrth ymateb, roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio inni pam yr ydych yn ystyried bod yr wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn wybodaeth gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y cedwir cyfrinachedd ym mhob

sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partion.

Manylion cyswllt Cydgysylltydd yr ymgynghoriad

Rhaid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at yr unigolyn cyswllt a enwir dan yr adran Sut i Ymateb.

Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch **proses** yr ymgynghoriad, dylech ffonio Sheila Morson ar 020 3334 4498, neu anfon e-bost ati: consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

**Ministry of Justice
Consultation Co-ordinator
Better Regulation Unit
Analytical Services
7th Floor, 7:02
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**



Cyhoeddwyd gan y TSO (Y Llyfrfa) ac mae ar gael fel a ganlyn:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion dros y ffôn/yhmoliadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebu drwy'r Llinell Ffôn Seneddol 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

Siop y Senedd

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion dros y ffôn / yhmoliadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: shop@parliament.uk

Y rhyngwyd: <http://www.shop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill

ISBN 978-0-10-186082-6



9 780101 860826